PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# y tincer

28t | 75c | Rhif 470 | Mehefin 2024



**Antur yn yr Ariannin**

t.10



**Lansio ymgyrch codi arian HAHAV**

t.21



**Gŵyl y Bwganod Brain**

t.19

# Twrnament Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn-coch

Cynhaliwyd y 10fed Twrnament Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn-coch er cof am Eric ac Arthur Thomas dros benwythnos 10fed, 11eg a 12fed o Fai ar gaeau Cae Baker.

Bu yn benwythnos llwyddiannus iawn a'r glaw yn cadw ffwrdd ar y dydd Sul. Cafwyd chwarae da rhwng y timoedd gyda rhai o dan 11 yn chwarae yn anghystadleuol.

Bu cystadlu brwd yn y timoedd dan 13 a dan 15 lle enillwyd gan Llanbed dan 13 a Teirw Tal-y-bont dan 15.

Diolch yn fawr i bawb a wnaeth wirfoddoli i helpu ar y 3 diwrnod hyn, maent yn rhy niferus i'w henwi. Hefyd i'r rhai fu wrthi yn paratoi yn ystod yr wythnosau cynt. Mae tipyn o waith trefnu ond mae cael cefnogaeth y pentref a chefnogaeth gan glybiau pêl-droed eraill yn werth yr ymdrech. Diolch yn fawr i'n noddwyr am y diwrnod, yn enwedig ein prif noddwr, Cawdor Cars., ac i bawb arall a wnaeth noddi drwy rhoi gwobrau, hysbyseb a rhoddion at y penwythnos. Diolch i'r Ysgol, yr Eglwys a'r Neuadd am adael i ni ddefnyddio eu cyfleusterau. Rydym yn gwerthfawrogi pob un a gallai sicrhau byddwn yn ôl blwyddyn nesaf.



Chwaraewr y dydd, dydd Sul: Lois Roberts, Penrhyn-coch



Teirw Tal-y-bont: enillwyr dan 15



Enillwyr dan 13: Llanbed

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, 38 Heol Alun, Waunfawr, Aberystwyth, SY23 3BB
Ebost: ionadavies752@btinternet.
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 07910 720422
hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Medi: Dyddiad cau** Medi 6; **Dyddiad cyhoeddi:** Medi 18

**MEHEFIN**

**22** Dgdd Sadwrn – Taith Cymdeithas y Penrhyn i Ddyffryn Nantlle dan ofal Bleddyn Huws

**27** Nos Iau Cyfarfod blynyddol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**28** Nos Wener Mari Mathias yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00 Mynediad : £10 Sesiwn nos Wener

**30** Nos Sul Cyngerdd gyda Gwenan, Magi a Meia; unawdydd: Barrie Powell yn Eglwys Ysbyty Cynfyn am 6.00 Tocynnau: £10 Plant o dan 18 oed am ddim.

**GORFFENNAF**

**1** Nos Lun Barbeciw Cyfeillion Ysgol Gyfun Penweddig yn yr ysgol am 5.00 Oedolion: £5 Plant £3 i gynnwys bwyd

**3** Dydd Mercher Llwybr lliwgar Ysgol Penrhyn-coch am 4.00cTocynnau (£5 / £15 y teulu) o'r ysgol Dwch a hen grys-t neu un gwyn a chofiwch eich sbectol haul! Trefnir gan y Gymdeithas Rhieni Athrawon

**4** Dydd Iau Etholiad Seneddol y Deyrnas Unedig. Blychau ar agor 7.00 – 10.00. Cofiwch fynd a ID gyda chi.

**16** Nos Fawrth Barbeciw Horeb yn y Felin – diolch i deulu y Beecheys.

**AWST**

**17** Dydd Sadwrn, Sioe Arddwriaethol Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn

**23-25** Gŵyl Big Tribute yng Ngelli Angharad

**MEDI**

**9** Nos Lun Cyfarfod blynyddol y Tincer am 7.00 ym Methlehem, Llandre

**14** Dydd Sadwrn Gŵyl y Castell, Aberystwyth o 10.00yb / 9.00yh

**18** Nos Fercher Cyfarfod agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30yh


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Fehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.


## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer Mis Mai 2024

**£25** (Rhif 137) Y Parchg Elwyn Pryse, Isgarn, Maes Ceiro
**£15** (Rhif 179) Martha Rowlands, Cwm Main, Capel Madog
**£10** (Rhif 236) Dafydd Shepherd, Cil-y-coed

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mhwyllgor Sioe Capel Bangor. Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970 880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com


CYMRAEG
Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


**Lluniau i'r Tincer**
Croesawn dderbyn lluniau trwy e-bost ond lle digwydd hynny dylent fod mewn fformat jpg.
**NI DDYLID EU RHOI MEWN DOGFEN WORD.**

## RHODDION

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhoddion isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

Cyngor Genau'r-glyn **£200**
Cyngor Cymuned y Borth **£100**



# 30 mlynedd yn ôl



Mr Dewi Williams, Maesbangor (oedd wedi derbyn Medal Gee am ei ffyddlondeb i'r ysgol Sul) a chyd-aelodau Ysgol Sul Pen-llwyn. (o *Dincer* Mehefin 1994.)

Dyma lun arall o aelodau Pen-llwyn yn 1991 yn dathlu.



Cyd-ddigwyddiad oedd hi i'r llun o dderbyn Medal Gee ddewiswyd ar gyfer 30 mlynedd nôl ymddangos yn yr un rhifyn â llun dwy arall o Ben-llwyn dderbyniodd y fedal eleni. (Gweler t8) Wrth drafod â Chyfeillion Pen-llwyn fe'm hatgoffwyd o rai eraill o Ben-llwyn dderbyniodd y Fedal - yn yr ail lun gwelir Mrs Megan Morgan dderbyniodd un yn 1991 ac yn ddiweddarach derbyniodd ei chwaer, Mair Jones un.




# Chwaraeon

Cafwyd diweddglo llwyddiannus i'r tymor i ferched D16 Cymdeithas Pel-Droed Ysgolion Ceredigion yn Stadiwm LHP, Caerfyrddin ar 29 Mai wrth iddynt ennill yn erbyn Ysgolion Caerdydd a'r Fro i fod yn bencampwyr Cymru. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol i'r merched yma ennill y gwpan ar ôl ennill y gystadleuaeth D15 y tymor diwethaf. Brwydrodd y ddau dîm yn galed trwy'r hanner cyntaf ond di-sgor oedd hi ar yr egwyl. Dechreuodd Ceredigion yr ail hanner ar dân ac ar ôl pasio celfydd i ryddhau Lleucu ar yr ochr chwith aeth hi heibio tair amddiffynwraig cyn croesi'r bel i Sioned. Tarodd Sioned ergyd gryf i mewn i'r rhwyd o ymyl y blwch cosbi i roi Ceredigion ar y blaen. Er i Geredigion cael cyfleuon i ychwanegu at y sgôr, cadwodd amddiffyn Caerdydd y sgôr i 1-0. Wedyn, munudau cyn y chwiban olaf er mawr siom i ferched Ceredigion llwyddodd Caerdydd i unioni'r sgôr. Felly aeth y gêm i giciau o'r smotyn. Er y pwysau enfawr llwyddodd Lily, Lleucu, Llio, Jem a Summer i sgorio i sicrhau'r fuddugoliaeth. Diolch i Caerdydd a'r Fro am ffeinal gyffrous. Diolch i'r holl gefnogwyr am ddod i gefnogi trwy gydol y tymor. Llongyfarchiadau enfawr i'r merched a'r hyfforddwyr. Diolch i Keith a Justin am eu gwaith caled drwy'r tymor.



**Mae Llio Tanat (Llandre), Tirion Sedgwick (Dol-y-bont) a Magi a Nel Rowlands (Penrhyn-coch) yn y tîm yma.**

## Pris y Tincer

Penderfynwyd, oherwydd cynnydd mewn costau cyhoeddi a phostio, y bydd pris *Y Tincer* yn codi i 85c o Fedi 2024, y codiad pris cyntaf ers Medi 2010. Fel yn y gorffennol, bydd modd derbyn y papur i'r drws am ostyngiad bychan o dalu ymlaen llaw ym Medi, sef talu £8.00 am 10 rhifyn (yn lle £8.50).

Bydd pris Y Tincer drwy'r post yn codi i £30, ond £8 trwy e-bost. Ymddiheuriadau am hyn ond cododd costau postio deirgwaith y llynedd."

## Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion

## Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd

# Bow Street

**Suliau**
**Capel y Garn**
**10.00**

*Mehefin*
23 Mehefin: Dim oedfa yn y Garn. Ond anogir yr aelodau i fynychu Noddfa lle bydd y Parchg. Richard Lewis yn pregethu.
30 Bugail

*Gorffennaf*
7 John Tudno Williams
14 Bugail
21 Bugail
28 Judith Morris

*Awst*
4 Noddfa
11 Dim oedfa
18 Noddfa
25 Lyndon Lloyd

*Medi*
1 Wyn Rhys Morris
8 Ifan Mason Davies.
15 Dim oedfa yn y Garn.
22 Dim oedfa yn y Garn ond anogir yr aelodau i fynychu Noddfa lle bydd y Parchg. Richard Lewis yn pregethu.
28 Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal y chwiorydd.

**SULIAU NODDFA**

*Mehefin*
30 Uno yn y Garn

*Gorffennaf*
7 Uno yn y Garn
14 Richard Lewis
21 Pererindod i Fyd Mari Jones
28 Richard Lewis

*Awst*
4 Richard Lewis
11 Dim Oedfa
18 Karen Owen
25 Uno yn y Garn

*Medi*
1 Uno yn y Garn
8 Richard Lewis
15 Cyfeillach
22 Richard Lewis
29 I'w drefnu

**Capel y Garn, Mai 2024**

Ein Bugail fu'n arwain ein gwasanaethau foreau Sul Mai 5, 19 a 26. I nodi Sul Cymorth Cristnogol ar Fai 12 cynhaliwyd oedfa yn dilyn Trefn Gwasanaeth Cymorth Cristnogol gydag amrywiol aelodau on gynulleidfaoedd y Noddfa a'r Garn yn cymryd rhan. Yn dilyn y gwasanaeth roedd cinio Bara a Chaws wedi ei darparu yn y festri gan Chwiorydd y Garn.

Bu dwy angladd yn y capel yn ystod y mis. Ar Fai 3ydd daeth teulu a chyfeillion y ddiweddar Eleri Elystan Hurt ynghyd i gofio a rhoi diolch am ei bywyd cyn i'w gweddillion gael eu claddu ym

mynwent y Garn. Magwyd Eleri yng Ngharregafon, Dolau ac yn Ysgol Sul a Chapel y Garn, cyn iddi symud i Loegr i weithio a phriodi. Estynnir cydymeimlad â'i gŵr Jed a'i merch Catrin, ac â'i brawd, Owain Morgan, Carregafon, Dolau.

Ar Fai 29 yng nghwmni teulu, cyfeillion a chyd-bentrefwyr, dathlwyd bywyd y diweddar Mary

Thomas, Dolgelynen, Llandre, – Mary Garej fel y byddai yn fwy adnabyddus, a hynny am mai ei

diweddar ŵr Elwyn fu'n rhedeg Garej Rhydypennau am flynyddoedd, cyn i'r mab Owen ei ddilyn. Yn Rhydyronnen, Tal-y-bont y magwyd Mary; bu'n athrawes cyn priodi a dod i fyw i Rydypennau lle bu'n weithgar a gwasanaethgar ym mywyd yr ardal a'r capel dros y blynyddoedd. Estynnwn ein cydymeimlad â'i phlant, Philip, Owen a Mair a'i teuluoedd.

**Merched y Wawr, Rhydypennau**

Yn ein Cyfarfod Blynyddol estynnwyd croeso i bawb gan ein Llywydd, Mrs Brenda Jones, fu'n taenu golwg dros raglen ddiddorol y flwyddyn. I ddilyn bu Hazel Thomas, swyddog IT Merched y Wawr yn rhannu nifer o storïau ei bywyd. Tra yn siarad, yr oedd yn trin gwallt un o'n haelodau, sef Mrs Shan Hayward oedd wedi ennill y profiad fel gwobr raffl. Roedd Shan yn bles iawn â'r steil newydd. I roi clo ar weithgareddau'r gangen am y tymor bydd trip ar y trên i Fachynlleth i siopa a gwledda yng Nghanolfan Owain Glyndwr i ddilyn. Rhywbeth i edrych ymlaen iddo.

**Gorsaf Bow Street**

Mae yn anodd credu fod tair blynedd ers agor gorsaf newydd Bow Street – yn ddiweddar cyhoeddodd Trafnidiaeth Cymru fod bron i 30,000 wedi ei defnyddio yn 2023/24. Wedi ei chwblhau yn 2021, defnyddiodd 12,563 teithiwr hi y flwyddyn honno, ffigwr gododd i 23,156 y flwyddyn ganlynol, gynorthwywyd gyda llai o effaith cyfyngiadau covid-19. Mae data diweddar yn cadarnhau i fwy na 29,000 ei defnyddio yn 2023/4 – 2,300 y mis ar gyfartaledd.

**Croeso**

Croeso cynnes iawn i Iori a Barbara Jones sydd wedi symud i 73 Maes Afallen. Ar ôl blynyddoedd o fyw yng nghwmni'r 'Gwylliaid Cochion' yn Ninas Mawddwy, maent wedi penderfynu troi'n 'Gardis' a symud yn agosach at Ceris, Jamie a'r plant ym Mhenrhyn-coch ac Alice a Jack yn Aber-ffrwd. Pob dymuniad da iddynt yn eu cartref newydd.

**Cyngor Cymuned Tirymynach Cartref Tregerddan**

Trefnodd y cyngor cymuned gyfarfod ddiwedd Mai yn Neuadd Rhydypennau i drafod dyfodol Cartref Tregerddan, yn dilyn cyhoeddi dogfen ymgynghorol y Cyngor Sir. Mae'r ddogfen i'w gweld ar wefan y Cyngor Sir, ac mae copi papur ar gael yn llyfrgell Aberystwyth.

Bydd y cyngor cymuned yn ymateb i'r ddogfen, yn dilyn y prif bryderon a drafodwyd yn y cyfarfod, gan gynnwys:

- byddai cau'r Cartref yn torri'r berthynas agos sydd wedi bodoli rhwng y preswylwyr â'r ardal leol ers dros 40 mlynedd;
- bod diffyg lle yn Hafan y Waun ar gyfer preswylwyr presennol Cartref Tegerddan, heb sôn am y dyfodol wrth i boblogaeth y sir fynd yn hŷn;
- bod y ddarpariaeth ar gyfer yr henoed yn annigonol ar hyn o bryd, a byddai cau Cartref Tregerddan yn gwneud hyn yn waeth;
- byddai cau'r cartref yn dod â gwaith pwysig y Ffrindiau i ben;
- yr adeilad ei hun – beth fyddai'n digwydd iddo petai'r Cartref yn cau.

Cytunwyd yn unfrydol i wrthwynebu cau'r cartref. Anogodd Paul Hinge, oedd yn cadeirio, bawb i ymateb i'r ddogfen ymgynghorol – **cofiwch fod rhaid ymateb erbyn 15 Gorffennaf.**

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Mrs Louisa Phillips, Maes Ceiro, ar ddathlu pen blwydd arbennig yn ddiweddar ac hefyd i Naiomi ac Ava, eto o Faes Ceiro, ar eu llwyddiant yn cystadlu yn Sioe Aberystwyth.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlir yn ddiffuant â Mrs Bet Evans, Hafod Elgar, 4 Maes y Garn, a'r teulu oll ar golli ei brawd yn ddiweddar.

ac â Brian Dafis, Bryncastell ar farwolaeth Rhys.







**Rhys Dafis**

Er cof am Rhys Dafis, gynt o Fryncastell, Bow-Street, a fu farw ar 18 Mai.


Talfyriad o deyrnged a roddwyd gan ei gymar, Bethan Mair, yn ei angladd ar 5 Mehefin.

Ganed Rhys mewn storm eira ddiwedd mis Ionawr 1979, a dim ond yn ail law ganddo fe yr ydw i'n gwybod y llu straeon am fod yn grwt gyda'i frawd Siôn Llŷr, am Bonterwyd, tŷ'i fam-gu ym Maes-yr-awel, Ysgol Syr John Rhys, ei gymdogion John a Gaz; am symud i Bow Street, am Benweddig, a'i ffrind Deri Roberts. Doeddwn i ddim yno pan fuodd e'n actio diafol Pontarfynach mewn pasiant ysgol, na thrwy gyfnod gwyllt canu gyda The Illusionists!

Doeddwn i ddim yno pan afaelodd ei salwch ynddo fe, gan beri iddo fe orfod rhoi'r gorau i weithio gyda Dewi Gwynne yr adeiladwr – cyfnod pan ofalodd ei rieni, Eirian a Brian, mor dyner amdano. Ond fe wellodd ddigon i fynd i China i weld ei ffrind, Lin Xiao Feng pan oedd tua 30 oed. Yn ystod y mis y bu yno, derbyniodd wersi crefftau ymladd, gan ychwanegu at ei sgiliau fel pêldroediwr chwim. Roedd e'n focsiwr da hefyd, ond fase fe byth yn brifo'r un dyn na chreadur arall – bydde fe hyd yn oed yn nyrsio bwmbis, bumble-bees, blinedig yn ôl i'w cryfder drwy roi dŵr a phowdr mefus mewn cragen iddyn nhw!

Dwi'n dod i'r stori ym mis Rhagfyr 2013. Ar ôl dod lawr i Bontarddulais ar Nos Calan y flwyddyn honno, aeth e byth oddi wrtha i wedyn. Fe gawson ni anturiaethau di-ri, er bod tostrwydd enbyd Rhys yn codi'i ben o bryd i'w gilydd. Fe welson ni Gymru, Lloegr a'r Alban benbwygilydd o St Ives i Stornoway, fe wylion ni ffilmiau, gwrando ar gerddoriaeth – yn enwedig y Fonesig Margaret Price, ffefryn Rhys. Fe ryfeddon ni at y cyd-ddigwyddiad anhygoel ei fod ef, a Brian, a minnau, yn rhannu dyddiad ein geni yn ein tro â Mozart, a'i dad Leopold, a'i wraig Constanza! Roedd e'n dwlu ar ei nith, Ethni Mair, ac fe gafodd le i'w enaid gael llonydd yng Nghlynnog-fawr, ger y môr a'r mynyddoedd, yng nghesail yr unigeddau yr oedd e'n dyheu cymaint amdanynt.

Yn anorfod, daeth ei salwch yn ôl yn ei nerth, ac yn y pen draw, aeth bywyd yn rhy drwm iddo fe'i gynnal. Serch ei ddiwedd brawychus, roedd ganddo, fel y dywedai Waldo, 'neuadd fawr rhwng cyfyng furiau'; fe oedd y dyn caredicaf, haelaf, clyfraf, doniolaf i mi ei adnabod erioed, ac ef fydd ceidwad fy nghalon i hyd byth.



**Clwb y Piod, Bow Street**

Llongyfarchiadau mawr i ail dîm y Piod ar ennill y Gynghrair a'r cwpan drwy guro Clwb Pêl-droed Llanuwchllyn o 2-O yn y Drenewydd ddiwedd Mai. Hwn oedd tymor gorau'r clwb. Dymuniadau gorau i Huw Bates ar ddiwedd ei gyfnod fel rheolwr, ac i Wyn Lewis, sy'n dod â'i gyfnod fel cadeirydd i ben wedi ugain tymor hynod lewyrchus a phrysur. Llongyfarchiadau i'r Piod, a dymuniadau gorau i Wyn a Huw at y dyfodol.

**Gwerthfawrogi 20 tymor o wasanaeth fel Cadeirydd Clwb Pel Droed Bow Street**

Cyfarfu Wyn a mi am y tro cyntaf bron i hanner can mlynedd yn ôl ac rydym wedi bod yn ffrindiau agos iawn ers hynny.

Mae Wyn yn hynod falch o'i gymuned ac mae ei ybrydoliaeth, ymroddiad a brwdfrydedd wedi cyfrannu'n enfawr at ddatblygiad llwyddiannus y Clwb ac at bêl-droed yr ardal yn gyfangwbl.

Wrth glywed ei fod yn camu lawr ar ôl 20 tymor rwyf wedi mynegi fy ngwerthfawrogiad personol trwy ddylunio anrheg o brint wedi ei fframio gyda detholiad o gloriau rhaglenni gemau cofiadwy dros y blynyddoedd.

Diolch am dy flynyddoedd arbennig o wasanaeth ffyddlon a'r holl atgofion hapus ar hyd y daith. Pob lwc i'r dyfodol.

**Meirion Jones**






Roedd yn fraint gan Glwb Pêl-droed Bow Street dderbyn siec am £700 gan deulu y ddiweddar Mair Davies yn ddiweddar



# Capel Noddfa, Bow Street

**Cyfeillach Mis Mai**
'Gwnaeth Ahab fab Omri fwy o ddrwg yng ngolwg yr Arglwydd na phawb o'i flaen.'

Myfyrdod yn seiliedig ar ran gyntaf oratorio Felix Mendelssohn Elias oedd gan Arwel gyda chymorth Lila yn y Gyfeillach mis Mai.

Eglurodd Arwel gefndir ysgrythurol yr Oratorio a chanolbwyntiodd ar y rhannau yn seileidig ar Lyfr Cyntaf Brenhinoedd.

Cychwynnodd ei fyfyrdod wrth chwarae recordiad o Bryn Terfel yn canu'r aria sy'n seiliedig ar yr adnod: "Dywedodd Elias y Thesbiad o Thisbe yn Gilead wrth Ahab," Cyn wired â bod Arglwydd Dduw Israel yn fyw, yr hwn yr wyf yn ei wasanaethu, ni bydd na gwlith na glaw y blynyddoedd hyn yn ôl fy ngair i."

Yna, aeth ymlaen i drafod cefndir yr Oratorio a'n hatgoffa bod ambell atsain yn y geiriau i'r hyn sy'n digwydd heddiw. Nid yn unig y cawsom y pleser o glywed llais y bariton Bryn Terfel ond cawsom hefyd y pleser o glywed llais Arwel ei hunan yn canu a chlywed ei atgofion am ganu mewn perfformiadau o'r Oratorio.

Gwrandawyd ar y corws "Diolch i ti o Dduw" sy'n seiliedig ar Salm 93 sy'n mynegi diolch y genedl Iddewig am y glaw a dod a'r sychder i ben. I orffen cyd-ganwyd emyn Eifion Wyn "Molwn di, O Dduw ein tadau, uchel ŵyl o foliant yw" ar y dôn Dusseldorf a gyfansoddwyd gan Felix Mendelssohn.

Eryl oedd wrth y piano a chafwyd sgwrs dros baned a chyfle i rai rannu profiadau am berfformiadau o'r Oratorio. Hywel fydd yn gyfrifol am y gyfeillach ym mis Mehefin.

**Cyfeillach Mis Mehefin**
'Canwch i'r Arglwydd gân newydd, canwch i'r Arglwydd yr holl daear.'

Roedd Cyfeillach mis Mehefin Capel Noddfa Bow Street yng ngofal Hywel Roberts a chawsom fyfyrdod ar Emyn Gosber a gyfansoddwyd gan T. Gwynn Jones a J.T. Rees.

Rhoddodd Hywel grynhoad difyr o fywyd a gyrfa T. Gwynn Jones a'i gysylltiad a Bow Street. Bu'n byw am gyfnod yn yr Hafan cyn dychwelyd i fyw yn y dref.

Er bod T. Gwynn Jones yn cael ei gydnabod fel un o'n cewri llenyddol prin iawn yw ei gynnyrch emynyddol. Pregeth gan un o'i gyn-fyfyrwyr y Parchedig Wallace Thomas yng Nghapel y Garn a ysbrydolodd yr emyn 'Pan fo'n blynyddoedd ni'n byrhau, pan fo'r cysgodion draw'n dyfnhau, tydi, yr unig un a ŵyr, rho olau'r haul ym mrig yr hwyr.'

a chyd-aelod yn y Garn sef J.T. Rees a gyfansoddodd y dôn. Mae'r emyn wedi ei gynnwys yn Caneuon Ffydd (173). Canwyd





yr emyn gan Caryl Roberts a'r cyfeilydd oedd Arwel George. I orffen ei fyfyrdod roedd Hywel wedi perswadio Anwen Mai Pearce a Huw Ceiriog i gyfansoddi emyn newydd sbon ar gyfer yr achlysur a chanwyd yr emyn gan Caryl ar y dôn Ombersley (W. H. Gladstone.)

Pererindod i Ganolfan Mari Jones yn Llanycil fydd cyfarfod nesaf y Gyfeillach.

## Cyngor Cymuned **Geneur Glyn**

**Cofnodion ac Adroddiadau ar gael ar wefan y Cyngor**: cyngorcymunedgeneurglyncommunity council.wordpress.com

**Dyddiad y Cyfarfod**: 20.05.2024 yn Ysgoldy Bethlehem, Debyniwyd 2 ymddiheuriad. 0 aelod o'r cyhoedd yn presennol.
**Trafodwyd**:
Cadeirydd: Enwebwyd Peter James fel Cadeirydd am y flwyddyn 2024-2025.
Is-Gadeirydd: Trafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

Diolchwyd i Rhodri Morgan am ei waith dros y flwyddyn diwethaf.

Parc / Cyrtiau Tenis: Grant oddi wrth Cynnal y Cardi wedi cymeradwyo.

Angen adnewyddu baner y Ddraig Goch.
**Materion Cyllid**: Adroddiad llawn ar gael ar wefan y Cyngor.
Cytunwyd talu: Cyfraniad at: Gerddi Cymunedol Llandre, Eglwys Llanfihangel Geneur Glyn, Y Tincer, Treftadaeth Llandre, Mynwent Capel y Garn, Cylch Meithrin Rhydypennau, HAHAV, Blood Bikes Wales (Aberystwyth).
TAW £240 wedi ei dderbyn 23/4/24.
Llythyr 26/4/24 CSC – Manylion Taliad - Praesept 1 - £3,333.34.
Ffurflen Blynyddol 2023/24:
(i) Datganiad Cyfrifyddu 2023/24 wedi ei gwblhau 29/4/24 a cymeradwyo.
(ii) Adroddiad Archwilio Mewnol wedi ei gwblhau 14/5/24.
(iii) Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi cytuno, ei lenwi ac ei gymeradwyo.

**Cyfarfod nesaf**: Cynhelir cyfarfod nesaf o'r Cyngor 24 Mehefin 2024 yn Ysgoldy Bethlehem am 7.00yh.
Pauline Lucas: clercgeneurglyn@yahoo.com

## Goginan

**Gwellhad Buan**
i Lynette Price, Panteg, ar ôl derbyn llawdriniaeth ar ei migwrn yn ddiweddar. Gobeithio na fydd yn hir iawn cyn cael dod allan o'r plastar.

i Aled Bebb, Penpistyll ar ôl treulio amser ym Mron-glais ond erbyn hyn mae adref ac yn parhau i wella.

**Cydymdeimlo**
Trist yw cofnodi marwolaeth dau berson a'u cartrefi nepell o'i gilydd ar riw yr eglwys, fel y'i gelwir yn lleol.

Fe fu Jane Farthing, Caron farw yng nhgartref Brondsbury, Aberteifi lle roedd wedi bod am ychydig wythnosau

Hefyd yn Ysbyty Bron-glais bu farw Terry Wicks, Golygfa ar ôl salwch hir.

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda theulu a ffrindiau y ddau.

# Difyrion Digidol

## gan Deian ap Rhisiart

Rwyf wedi cael rôl newydd o fewn Cymunedau Digidol Cymru yn ddiweddar i weithio gyda grwpiau pobl hŷn a hynny er mwyn hybu defnydd o dechnoleg a gwella sgiliau. Y bwriad yw darbwyllo pobl fod yna bethau da ynghlwm wrth dechnoleg sydd yn gwella ac i raddau o bosib yn newid bywyd.

Nid wyf yma i wyngalchu technoleg, gan fod llawer o effeithiau negyddol yn deillio o dechnoleg i bob oed, yn arbennig pobl ifanc gyda'r cyfryngau cymdeithasol a phobl hŷn o ran sgamiau. Mae'n bwysig bod yn gyfrifol a pheidio bod yn fyrbwyll wrth ddefnyddio teclynau digidol wrth gwrs gan fod llawer o beryglon ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol o'r peryglon i allu osgoi hwy. Gan osgoi'r sgamiau sy'n bygwth pobl hŷn, mae yna ffyrdd da iawn i ddifyru'ch hun wrth ddefnyddio'ch ffôn neu dabled. Yr ydym o fewn y prosiect hwn yn awyddus i weithio gyda phobl yn y gymuned ar sefydlu sesiynau ar hyd a lled Cymru fel cyfle i grwpiau pobl hŷn ddod at ei gilydd. Trwy'r sesiynau, byddant yn wagle i gymdeithasu'n anffurfiol tra'n dysgu sgiliau digidol neu ddatrys problem neu ddwy gyda'ch ffôn tra'n mwynhau 'dished' neu 'baned' a chacen! Byddai sesiynau o'r fath yn fan cychwyn i bobl sy'n amheus o'r digidol i wneud camau bach graddol i ddysgu mwy am ddiogelwch neu unrhyw bwnc perthnasol, heb y pwysau/ymrwymiad i gwrs ffurfiol IT.


Felly, ydych chi'n drefnydd mewn hybiau cymunedol? Os ydych yn awyddus i hwyluso sesiynau o'r fath, cysylltwch gyda mi i dderbyn cwrs byr i'ch helpu i sefydlu a chynnal sesiynau. Gall 'paned ddigidol' fod yn rhan o sesiynau sy'n bodoli'n barod er enghraifft paned a sgwrs neu foreau dysgu Cymraeg. Cysylltwch gyda mi trwy Deian.apRhisiart@cwmpas.coop

**Cwis Bob Dydd**

Mae yna ddegau o apiau yn gallu rhoi oriau o ddifyrwch, un ap sy'n gynyddol boblogaidd yn y Gymraeg yw Cwis Bob Dydd sydd yn dychwelyd am yr eildro. Ydych chi wedi chwarae eto? I bobl hŷn sy'n chwilio am ddiddordebau ac heriau newydd dyddiol, mae Cwis Bob Dydd yn berffaith i'ch cadw'n brysur a thanio'r celloedd llwyd yn eich ymennydd. Mae'r cwestiynau yn heriol ac yn gyffredinol am Gymru a thu hwnt ac mae'n bosib ennill gwobrau da i'ch teulu ond mae hi'n gystadleuol iawn gyda nifer o gwiswyr eraill ardderchog yn eich wynebu ifod yn geffylau blaen. Er mwyn chwarae ewch i Google Play Store ar eich ffôn Android neu App store ar eich ffôn Apple a chwiliwch am 'Cwis bob Dydd' yn y chwiliwr ar dop y sgrin. Pan ddaw logo Cwis Bob Dydd i fyny yn y chwilio – pwyswch ar 'install'. Wedyn, ar ôl iddo lwytho ar eich dyfais, maent yn gofyn i chi roi eich manylion yn cynnwys rhif ffôn symudol. Felly, ewch amdani ac fe fydd yr ap yn eich atgoffa bob dydd os nad ydych wedi cystadlu eto i wneud hynny! Pob lwc! Ewch i'r wefan ganlynol am ragor o fanylion: https://www.s4c.cymru/en/cwis-bob-dydd/

## ADOLYGIAD

Ffion Emlyn *Pen-blwydd hapus!*
Y Lolfa , 2024.
200t. £9.99




Golygfa hunllefus, lawn tensiwn sy'n gyflwyniad i nofel gyntaf Ffion Emlyn, wrth i'r darllenydd ganfod y prif gymeriad, Martha, yn gorwedd ar ei gwely yn y tywyllwch, gyda gwaed drosti a chyllell yn ei llaw. Ond dim ond cipolwg i'n herio a gawn o'r sefyllfa brawychus yma, cyn i'r nofel blymio'n ôl i'r gorffennol, i ben-blwydd diweddar Martha'n dri deg dau oed, a'r noson lle mae ei bywyd yn newid am byth.

Yn anrheg pen-blwydd, mae rhieni Martha'n rhoi newyddion iddi – gan droi ei byd ar ei ben, a gwneud iddi gwestiynu popeth a wyddai gynt. Beth sy'n dilyn yw siwrne Martha i ddarganfod y gwir, a thrwy hynny, darganfod ei hunan.

Wrth i Martha geisio gwneud synnwyr o'i bywyd yn sgil datguddiad ei rieni, mae'n gadael ei chariad, Daf, i fynd ar genhadaeth bersonol. Wrth i daith Martha ei harwain i Lundain, ac at yr eclectig Ywain ac Elffi, ac yna i Gaerdydd at Rhys a Denise a thu hwnt, dim atebion a ddaw i'r wyneb, ond yn hytrach, mwy o gwestiynau, cyfrinachau a chymhlethdodau ym mywydau ei ffrindiau newydd, ac mae Martha'n teimlo'n fwy ansicr fyth o'i thrywydd.

Stori sy'n troi a throelli yw hon, sy'n archwilio natur dynol, ar adegau gyda hiwmor a hwnnw'n aml yn ddigon tywyll. Mae'r arddull yn drawiadol, y nofel yn neidio o amserlin Martha'r presennol, i stori'r gorffennol diweddar, a'r amgylchiadau sy'n arwain at yr holl helynt.

Nofel ddirgelwch gyfoes yw hon sy'n datblygu drwy wrthgyferbyniad rhwng naratif fygythiol, dywyll, a stori ddoniol ac ysgafn. Dawn Emlyn fel storïwr yw ei thriniaeth o bynciau dwys a chymhleth a'i gallu i'w plethu â digwyddiadau a deialog digrif. O ganlyniad mae'n stori hawdd i'w darllen, ond serch hynny mae'n un sy'n peri i'r darllenydd ystyried nifer o bynciau difrifol wrth iddyn nhw godi drwy'r nofel. Er enghraifft, ceir trafodaeth deimladwy am berthynas orfodol, ddifrïol, ac effaith honno ar blentyn.

Mae profiad yr awdur fel cynhyrchydd drama yn amlwg i mi; dyma nofel a fyddai'n sicr yn addas iawn i'w throi'n ddrama deledu neu radio. Os ydych yn mwynhau dirgelwch gyda'r gymysg â dipyn o ysgafnder yn eich nofelau, yna mae'r gyfrol yma'n cyfuno'r ddau i'r dim.

**Marged Berry**

*Adolygiad oddi ar www.gwales.com trwy ganiatâd Cyngor Llyfrau Cymru*

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch

Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân

01970 820149

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**

**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol

**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758

e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

## Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Mehefin*
23 2.30 Hywel Davies
30 10.30 Dyfan Graves

*Gorffennaf*
7 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun
14 Sul Waldo
21 Bore Gruffudd Jenkins
28 10.00 Peter Thomas

*Awst – addoli yn y dref 10.00*
4 Bethel Judith Morris
11 Morfa Eifion Roberts
18 Seion Rhys Locke
25 Bethel Rhidian Griffiths

*Medi*
1 2.30 Peter Thomas Oedfa gymun
8 I'w drefnu
15 10.30 Jamie Medhurst

**Clwb Sul:**
Cyfarfod yn Horeb 10.30
23 Mehefin
21 Gorffennaf



## Ymddeol

Llongyfarchiadau i Miriam Garrett ar ei hymddeoliad o'r Gwaith yn Swyddfa Merched y Wawr. Fe'i gwelir yma gyda Elinor Davies Trysorydd Cenedlaethol a Geunor Roberts, Llywydd.

**Cymorth Cristnogol**
Cyfanswm casgliad Penrhyn-coch eleni yw £522. Hoffai'r Trefnydd, Ceris Gruffudd, a'r Trysorydd, Eleri James, ddiolch i bawb a gyfrannodd eleni. Cynhaliodd Horeb wasanaeth Cymorth Cristnogol ar Fai 12.

**Prawf gyrru**
Llongyfarchiadau i Cerys Hurford ar basio ei phrawf gyrru.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Sioned a Rhys Williams ar enedigaeth mab – Llion Rhys Williams ar 29 Mai yn Rhydaman; brawd bach i Lleucu a ŵyr i Lynwen & Darren Huxtable.





**Llongyfarchiadau i Felicity Broadhurst, enillodd y gystadleuaeth dylunio cerdyn Nadolig Merched y Wawr yn ddiweddar.**

## Merched y Wawr Penrhyn-coch

Anwen Butten chwaraewr bowls, oedd ein gwraig wadd yn mis Mai. Wel am daith ddiddorol mae Anwen wedi gael. Wedi dechrau chwarae bowls gyda'i Mam, yng Nghlwb Bowls Llanbed, cafodd brofiadau arbennig. Cynrychiolodd ei Chlwb, Sir a'i gwlad ac yn goron ar y cyfan, cafodd ei dewis yn gapten ei gwlad yng Ngemau'r Gymanwlad.

Mae Anwen hefyd yn gweithio llawn amser, yn nyrs arbenigol cancr gwddwg a'r pen. Noson arbennig iawn.









**D J Evans Cyfarwyddwyr Angladdau**
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
**Aberystwyth 01970 615328**
**Penrhyn-coch 01970 820249**
**Machynlleth 01654 700006**

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture
Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

# Twrnament Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn-coch




Chwaraewr gorau dan 15 Jaelan Brown o Fachynlleth




Leigh Jenkins, mab Kevin, yn cyflwyno Cwpan Coffa Kevin Bones Jenkins i Connor Evans-Williams




Chwaraewr y diwrnod dydd Sadwrn, Erin Jones, o Lambed




Ail safle dan 13 Panthers Penrhyn-coch




Ail safle dan 15 Hurricanes Machynlleth



Ann Tudor, mam Gwenno, yn cyflwyno Cwpan Coffa Gwenno Tudor i Nancy Pole, Merched Penrhyn-coch

## Cymunedau Ceredigion yn cael eu hannog i "fabwysiadu" eu hafonydd lleol

Mae cymunedau ledled Ceredigion yn cael eu gwahodd i "fabwysiadu" nentydd i wella bioamrywiaeth a chysylltiad cymunedol â'u hafon leol, trwy brosiect dan arweiniad Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru (WWRT). Mae Adopt a Tributary Ceredigion yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU, gyda chymorth Cynnal y Cardi gan Gyngor Sir Ceredigion. Mae'r prosiect yn ceisio gwella cyflwr afonydd Ceredigion, o ddalgylchoedd Afon Clarach ac Afon Rheidol yn y gogledd i Afon Teifi yn y de, trwy gefnogi a hyfforddi cymunedau i fod yn llygaid, clustiau a lleisiau ar gyfer afonydd lleol.

Mae llawer o lednentydd yn bwysig fel silfeydd a meithrinfeydd pysgod ac ar gyfer amrywiaeth enfawr o fywyd gwyllt eraill, gan gynnwys adar a dyfrgwn. Mae amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys asideiddio, llygredd, rhwystrau i fudo pysgod, sbwriel a dirywiad cynefinoedd yn golygu nad ydynt mor iach ag y gallent fod. Mae eu hadferiad yn hanfodol i wella bioamrywiaeth ac ansawdd dŵr. Mae afonydd hefyd yn bwysig i gymunedau dynol am amryw o resymau a bydd y prosiect hwn yn sicrhau y gall cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol fwynhau afonydd yn ddiogel.

Mae Aelod Cabinet Ceredigion a'r Cynghorydd Clive Davies yn cefnogi'r prosiect: "Mae grwpiau mabwysiadu yn gwneud popeth o roi gwybod i WWRT am faterion a chyfleoedd wrth gerdded ar hyd eu hafon, i gasglu sbwriel, arolygon bywyd gwyllt, monitro ansawdd dŵr a hyd yn oed gweithio gyda thirfeddianwyr i adfer cynefinoedd yn yr afon. Bydd WWRT yn darparu'r hyfforddiant, y gefnogaeth, yr offer a'r canllawiau Iechyd a Diogelwch i helpu cymunedau i gyflawni eu nodau."

"Mae'r prosiect yn gweithio gyda chymunedau lleol i fynd i'r afael â llawer o'r problemau sy'n effeithio ar y nentydd hyn, ac mae WWRT yn ceisio cynyddu nifer y grwpiau sy'n cymryd rhan i sicrhau bod cymaint o nentydd Ceredigion â phosibl yn cael gofal."

Dywedodd Joe Wilkins, Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Ceredigion ar gyfer Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cymru: "Mae'n anodd meddwl am Geredigion heb feddwl am y cannoedd o filltiroedd o afonydd a nentydd sy'n dod â chymaint o fywyd i'r sir. Mae ein hafonydd dan fygythiad ac mae'n hawdd teimlo'n ddi-rym. Mae prosiect Mabwysiadu Llednant yn ceisio dod â chymunedau at ei gilydd i wella iechyd afonydd Gorllewin Cymru.

Rydym yn edrych i weithio gydag unrhyw ysgolion, busnesau lleol, undebau, grwpiau ffermio, grwpiau cymunedol, cynghorau ac unigolion sydd am chwarae rhan i amddiffyn ac adfer afonydd gwych Ceredigion."

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn mabwysiadu llednant yng Ngheredigion anfon e-bost at Joe ar joe@westwalesriverstrust.org.

# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Suliau**
**Pen-llwyn**
*Mehefin*
23 2.00 Bugail
30

*Gorffennaf*
**7** 5.00 Bugail
**14** 2.00 John Tudno Williams
**21** 10.00 Oedfa'r ofalaeth – yn y Garn
**28** 2.00 Wyn Morris

*Awst*
**4**
**11**
**18** 10.00 Ifan Mason Davies
**25**

*Medi*
1
8
15



**Merched y Wawr – Cangen Melindwr**
Cynhaliwyd cyfarfod olaf y tymor ar ddechrau mis Mai. Gwesty'r Four Seasons yn Aberystwyth oedd y man cyfarfod ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol. Croesawyd pawb yn gynnes. Cafwyd adroddiad am weithgareddau'r flwyddyn a diolchwyd i'w swyddogion am eu holl waith a wnaed gyda graen. Etholwyd swyddogion a derbyniwyd awgrymiadau ar gyfer rhaglen flwyddyn nesaf.

Yna mwynhawyd pryd blasus o fwyd yn y gwesty. Yn y llun gwelir rhai o'r aelodau ar fin gadael y gwesty.

**Marwolaeth**
Gyda thristwch y cofnodwn farwolaeth Mr. Sid Clench, Poplars ac yntau newydd ddathlu ei ben blwydd yn 90 oed. Symudodd y teulu o chwech i Blaengeuffordd yn 1977, ond bu farw ei briod Joy yn yr wythdegau. Bu hi yn dysgu plant bach yn yr ysgol feithrin leol ac yn fawr ei pharch yno. Ar ôl i'r pedwar plentyn dyfu i fyny, symudasant o'r ardal gan ddilyn amrywiol yrfaoedd yn Lloegr. Gwyddonydd oedd Sid a bu'n gweithio yn Nhrawscoed am flynyddoedd lawer. Bu yn drysorydd yn Eglwys Dewi Sant. Capel Bangor am nifer o flynyddoedd ac fe fynychai y gwasanaethau yn gyson o Sul i Sul. Roedd ein gŵr bonheddig yn flaengar iawn mewn amrywiol feysydd ac fe fu ei ffrindiau yn garedig iawn wrtho, yn ymweld ag ef yn gyson wrth iddo fethu cymdeithasu fel cynt. Colled enfawr iddo oedd colli ei ffrind, Sally Hutchinson rhyw ddwy flynedd yn ôl, roeddent yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn mwynhau gwyliau yng nghwmni ei gilydd. Yn anffodus dirywiodd iechyd Sid yn y blynyddoess diwethaf a bu bron iddo golli ei olwg yn llwyr, er hynny ni adawodd ei gartref yn Poplars tan rhyw ddau fis yn ôl. Cydymdeimlwn â'i deulu yn eu colled a'u galar a meddyliwn am ei gymuned glos yn Blaengeuffordd wrth iddynt golli cymydog o'r iawn ryw, a'i ffrindiau lu yn yr ardal.

**Llwyddiant**
Llongyfarchiadau calonnog i bob un o'r ardal, ac eraill a chysylltiadau â Phen-llwyn, a fu yn cystadlu ac yn llwyddiannus yn Eisteddfod yr Urdd yn Meifod, Roedd yn hyfryd eich gweld ar y teledu ac ymhyfrydwn yn eich llwyddiant, boed mewn parti, gyda'r ysgol neu gyda Adran o'r Urdd, neu ar eich pennau eich hunain. Diolchwn i'r hyfforddwyr i gyd am eu llafur di-flino yn ystod y flwyddyn. Daliwch ati, da iawn chi.

**Capel Pen-llwyn**
Llongyfarchiadau i ddwy o selogion Ysgol Sul Pen-llwyn ar dderbyn Medalau Gee yn ddiweddar am eu ffyddlondeb i'r ysgol Sul. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Seion pryd y cyflwynwyd y medalau i Aeronwy Lewis ac i Heulwen Lewis gan y gweinidog Y Parchg. Ddr. Watcyn James a'r Parchg. Aled Davies, Chwilog, cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul.

Mae'r ddwy ohonynt wedi mynychu ysgol Sul ers eu plentyndod ac wedi bod yn athrawon yn Ysgol Sul Pen-llwyn



ers degawdau. Mewn oedfa yng Nghapel Pen-llwyn siaradodd y ddwy am eu profiadau ac am ddylanwad yr ysgol Sul ar eu bywydau. Diolch iddynt am eu cyfraniad di-flino i waith yr ysgol Sul.

**Gwellhad buan**
Da iawn deall fod Mrs. Cynthia Evans, Cwmwythig a Miss Ann Vaughan, Gwarddol adre o'r ysbyty erbyn hyn. Dymunwn, fel ardal, wellhad buan i'r ddwy, rydym yn gweld eich eisiau ar adegau fel yma.

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT
GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111
james.memorials@btconnect.com

# Trefeurig

**Llwyfan y Maes**
Llongyfarchiadau i'r grŵp Mellt ar gael eu penodi fel prif artist Llwyfan y Maes nos Fawrth yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd.

# BLE MAEN NHW NAWR?

## Geraint Hughes, Tregerddan a Phen-y-garn, Bow Street

Wedi derbyn fy addysg cynnar yn Ysgol Rhydypennau ac Ysgol Ramadeg Ardwyn es ymlaen yn 1973 i Goleg y Drindod, Caerfyrddin. Yno bum yn dilyn cwrs Tystysgrif Athro am dair blynedd ac yna blwyddyn ychwanegol ac ennill gradd B.Add. Teimlaf yn fraint fy mod wedi astudio yng ngofal Nora Isaac, Carwyn James, Aneurin Jenkins-Jones a Dafydd Rowlands.

Cefais fy apwyntio i fy swydd dysgu cyntaf yn Ysgol Gynradd Llanybydder ym Medi 1977 ac ymgartrefu yno wedi priodi â Sue yng Ngorffennaf 1979. Oddi yno euthum i Ysgol Ffynnonbedr, Llambed fel dirprwy bennaeth cyn cael fy apwyntio yn Brifathro yn Ysgol Gynradd Llannarth ym Medi 1984. Mwynheais fy nghyfnod yn Llannarth yn fawr iawn ac roeddwn mor ffodus o gael staff cydwybodol a Chymdeithas Rhieni mor gefnogol. Sefydlwyd diwrnodau fel Steddfod ysgol ac arweiniai ymlaen i gystadlu yn Eisteddfodau yr Urdd ac hefyd Mabolgampau'r Ysgol. Ar benwythnosau bum yn ymwneud â Chlwb Pêl-droed Ceinewydd â gofal am dîmau pêl-droed iau am nifer o flynyddoedd.

Yn 1992 treuliais ddwy flynedd fel Pennaeth Ysgol Eglwysig y Model, Caerfyrddin ac yn 1994 cefais fy apwyntio yn Bennaeth Ysgol Gynradd Felin-fach. Yma eto cafwyd cydweithrediad staff brwdfrydig a rhieni cefnogol. Hyn yn galluogi'r plant i feithrin sgiliau a doniau ar gyfer eu dyfodol.

Wedi ond ychydig i flwyddyn yn y swydd fel Swyddog Addysg gyda Chyngor Sir Ceredigion torrodd fy iechyd yng Ngorffennaf 1998 a gorfu i mi roi'r gorau i bethau am



gyfnod byr. Ond o dipyn i beth bum yn gwneud ychydig o waith cyflenwi ac yna cymerais swydd ran-amser fel Swyddog Datblygu gyda Chymdeithas Eisteddfodau Cymru. Gan fy mod wedi bod yn cystadlu yn y maes llefaru ers pan yn blentyn teimlais y byddai swydd i hyrwyddo'r Eisteddfodau lleol ar hyd De Cymru yn gwbwl addas ac yn achos yr oeddwn am eu cynorthwyo.

Diwedd y flwyddyn 2003 penderfynon ni fel teulu i symud tŷ ac ardal ac ymgartrefu ym Mheniel ger Caerfyrddin. Rydym yn byw yma 'nawr ers dros ugain mlynedd ond o hyd yn cadw cysylltiad ag ardaloedd Llannarth a Felin-fach.

O ran gwaith mae un bennod hapus arall i'w gofnodi. Wrth ymgymryd â'r gwaith cyflenwi, mi ddes i wybod bod Ysgol Dyffryn Teifi yn edrych am Athro Carlam / Cyswllt rhan amser. Ymgeisiais am y swydd a chefais y gwaith dros dro. Bum yno am ddeng mlynedd nes ymddeol yn 2014. Mwynheais y swydd yn fawr gan yr oeddwn yn ail gynnau fy arbenigedd â'r sector cynradd tra yn cefnogi'r dysgwyr yn y bennod nesa allweddol o'u haddysg.

Magodd Sue a finne dri o blant sydd erbyn hyn wedi gadael y nyth. Mae'r mab hynaf, Steffan, erbyn hyn yn rhedeg dau fusnes yng Nghaefyrddin a Llandeilo, ar ôl treulio deng mlynedd fel athro cynradd. Tra'n astudio yn Athrofa Caerdydd daeth i gysylltiad â'r athletwraig ddall, Tracey Hinton. Bu am gyfnod o 12 mlynedd fel tywysydd iddi yn ei harwain yn y Gêmau Paralympaidd yn Athen, Beijing a Llundain yn ogystal â Phencampwriaethau ym mhob rhan o'r byd. Buom fel rhieni ar sawl taith dramor yn eu cefnogi ac yn mwynhau y wefr o'u gweld yn cystadlu. Heddiw, mae'n rhedeg Sgiliau – Canolfan Chwarae Meddal yng Nghaerfyrddin a Lolfa / Sgiliau yn Llandeilo, lle bwyta a Chanolfan Chwarae i blant bach.

Mae Heledd a'r teulu yn byw yn Llandysul. Priododd â Mathew ar ddydd Calan 2010. Mae ganddynt ddau o blant, Efa sy'n naw oed a Iolo sy'n bedair. Mynychodd Ysgol Gynradd Llannarth ac Ysgol Dyffryn Teifi. Ar ôl treulio tair blynedd ym Mhrifysgol Caerdydd yn astudio Cymraeg a Cherddoriaeth aeth i Goleg y Drindod am flwyddyn i hyfforddi fel athrawes. Ar hyn o bryd mae Heledd yn athrawes Bl.5 a 6 yn Ysgol Bro Teifi, Llandysul.

Meilyr yw'r mab ifancaf. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Llannarth ac Ysgol Bro Teifi. Yna gwnaeth ei brentisiaeth fel plymwr. Wedi cyfnod o chwe mis yn teithio Awstralia, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau sefydlodd gwmni Pibau yn ardal Caerfyrddin. Erbyn hyn mae ganddo radd H.N.C.(Gwasanaethau Adeiladu) ac yn gweithio fel Crefftwr Mecanyddol i Fwrdd Iechyd Hywel Dda yn Ysbyty Glangwili. Priododd Meilyr â Luned yn Hydref 2021 ac mae ganddynt fab o'r enw Alffi sy'n un fis ar bymtheg. Maent wedi ymgartrefu ym Mronwydd, ger Caerfyrddin.

Erbyn hyn mae Sue wedi ymddeol hefyd o'r byd dysgu a phan nad ydym yn gwarchod yr ŵyrion yr ydym yn mwynhau teithio, yn enwedig mordeithiau. Llynedd buom ar fordaith arbennig i'r Caribî.

A minnau yn cyrraedd oedran arbennig yn yr Hydref eleni, mawr hyderaf y gwelaf yr ŵyrion yn tyfu ac yn datblygu eu doniau ym mha faes bynnag y mynnant gan ymfalchïo bob amser yn eu gwreiddiau Cymreig a'u Cymreictod.







# Lleucu ac Eleanor a'u hantur yn yr Ariannin

Mae'n rhyfedd meddwl yn ôl dros y flwyddyn sydd newydd basio. Dw i ac Eleanor yn ôl yma yn Nghymru nawr ac wedi dod i ail arfer a'r drefn ddyddiol sydd gyda ni yma. Dw i'n teimlo fel fy mod i'n ail adrodd yr un hen stori wrth bawb am sut mae'n teimlo i fod yn ôl adre ac os ydyn ni'n colli'r Ariannin ac ati. Y gwir yw ei bod hi'n od meddwl ein bod ni wedi treulio blwyddyn gyfan, jyst a bod ym mhen draw'r byd ac mae'r profiad arbennig hwnnw'n teimlo fel petai ar wahân yn llwyr i'n bywyd ni fan hyn. Mae'n ddau fyd hollol wahanol.

Mae'n swnio fel *cliché* ond roedd cael y cyfle i deithio i'r Ariannin a gweithio fel athrawes mewn ysgol gynradd fel gwireddu breuddwyd. Dw i wrth fy modd yn dysgu plant Cyfnod Sylfaen a dysgu iaith i blant CA2, ac yn Ysgol Gymraeg y Gaiman dyna oeddwn i'n gwneud ac yn wir, roeddwn i wrth fy modd yna! Gan fy mod i gyda chefndir athrawes mewn ieithoedd tramor roeddwn i hefyd yn gweld teithio i'r Ariannin yn gyfle i fi ddysgu Sbaeneg ac i fy merch i Eleanor gael dysgu trydedd iaith hefyd. Dw i'n teimlo'n gryf bod y brwdfrydedd roedd gen i i ddysgu ac i fy merch i ddysgu hefyd wedi 'ngalluogi i mi werthfawrogi a dod i nabod y gymuned ehangach yn y Gaiman yn ogystal â meithrin perthynas gyda'r gymuned Gymraeg. Dw i'n teimlo'n angerddol dros ddysgu ieithoedd ac i bobl rannu profiadau a dysgu wrth ei gilydd. Mae'n fraint cael teithio ac mae angen gwneud y gorau o bob cyfle.

Mae addasu i drefn gwlad a diwylliant newydd yn anodd. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd cyfnodau o hiraeth a theimlad o fod ychydig ar goll ond roedd pobl y dref fach hyfryd yn nyffryn Camwy yn gefnogol iawn ac yn barod iawn i helpu a'n croesawu ni i'w cartrefi, eu clybiau a'u bywydau yn gyffredinol. Roedd darganfod gwersi dawnsio fflamenco fel dod o hyd i aur yng nghanol yr anialwch ac yma roeddwn i ac Eleanor wedi mwynhau dysgu a chymdeithasu gyda phobl y tu allan i'r gymuned Gymraeg ac yma roedd y bobl yn ymddiddori yn y ffaith ein bod ni'n dod o Gymru, yn aros am flwyddyn ac felly'n awyddus i ddysgu mwy am ein bywydau ni a'n hiaith ddiddorol ni.

Ar ôl rhyw ddeufis o setlo yn y Gaiman gwnes i ddechrau dosbarth Cymraeg i oedolion ar gyfer dechreuwyr. Creu'r dosbarth yma oedd un o'r pethau dw i fwyaf balch o'u cyflawni dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'n brofiad arbennig ac unigryw iawn medru dysgu rhieni plant yr ysgol a dod i'w nabod a meithrin perthynas gryfach oherwydd hyn. Mae diddordeb mawr iawn gan nifer o oedolion yn y Gaiman i ddysgu Cymraeg a phe byddai mwy o amser wedi bod gyda fi neu pe byddwn i wedi aros yn hirach byddai galw wedi bod am ddosbarthiadau eraill. Does dim Cymraeg gan y mwyafrif o'r rieni sy'n gyrru eu plant i'r Ysgol Gymraeg ond mae gwir ddiddordeb ganddyn nhw i ddysgu. Roedd hi wir yn hyfryd gweld y chwilfrydedd yn codi yn fy nosbarth i oedolion wrth i'r misoedd fynd yn eu blaen a dw i'n gobeithio'n arw y byddan nhw'n medru parhau gyda'u Cymraeg yn 2024.

Roedd gweithio ar y cyd gyda Luciana, athrawes Dosbarth Pedair Oed yn hyfryd. Trwy gydweithio â hi, roeddwn i'n dod i ddeall trefn ac arferion ysgolion meithrin yn yr Ariannin ac yn teimlo fel ein bod ni'n dwy yn cefnogi'n gilydd. Mae'n anodd dysgu iaith dramor, ond roeddwn i wrth fy modd yn gweld parodrwydd Luciana i ddefnyddio'r Gymraeg roedd ganddi hi a'i pharodrwydd i ddysgu mwy. Roedd ei brwdfrydedd a'i hysbryd yn sicr yn dylanwadu ar y plant bach a'u hagwedd nhw tuag at ddysgu'r Gymraeg. Mae tîm o athrawon rhagorol gyda'r ysgol feithrin a dw i yn sicr wedi elwa'n broffesiynol o gael bod yn aelod o'u tîm nhw. Mae'r Gymraeg yn gryf yna, ond mae cael pedair athrawes llawn amser gydag un o Gymru yn arbenigo yn y Gymraeg yn sicr yn fantais i'r prosiect datblygu'r Gymraeg.

Roeddwn i mor hapus fy mod i wedi cael dysgu Cymraeg i ddosbarth o blant bl 5 a 6 am y flwyddyn gyfan. Dosbarth gyda gallu da iawn yn y Gymraeg oedden nhw ond wrth gwrs gydag amrywiaeth o ran rhuglder. Mae hi wir wedi bod yn fraint cael eu dysgu nhw bob prynhawn yn ystod y tymor a gweld eu datblygiad dros y flwyddyn a pha mor awyddus ydyn nhw i ddefnyddio'r Gymraeg a'r balchder sydd ganddyn nhw yn eu gallu i siarad, ysgrifennu a chanu'n Gymraeg. Dw i yn fy elfen yn dysgu iaith i blant CA2. Mae cael y rhyddid i fod yn arbrofol gyda cherddoriaeth, gyda rhythm, gyda chyflwyno barddoniaeth a rheolau gramadeg ac annog plant i ysgrifennu wedi bod yn wych - does dim ffordd arall galla i ddisgrifio'r profiad.

Dw i'n hynod werthfawrogol o'r profiadau mae fy merch i Eleanor wedi cael yn y Gaiman a bod Cymdeithas Cymru Ariannin wedi gallu ariannu fy nhaith i a fy ngwaith i yno. Mae Eleanor wedi cael addysg arbennig mewn cymuned gariadus sydd wedi ei chofleidio yn llwyr a dw i'n diolch o waelod calon i bawb sydd wedi bod yn rhan o'i bywyd hi ac o bob cyfle a phrofiad sydd wedi cael ei roi iddi hi yn y Gaiman.

Pe byddwn i'n cael cyfle i fynd i weithio yn yr Ariannin eto, byddwn i'n awyddus iawn i ddod i adnabod mwy ar ardaloedd eraill yn y Wladfa. Byddai'n hynod ddiddorol cael gwell 'nabod ar bobl a byd natur Trevelin ac Esquel a hefyd gwneud mwy gyda'r cymunedau Cymreig yn y dyffryn tu hwnt i'r Gaiman. Mae Eleanor wedi ail ymgartrefu yn y Borth ac yn ei dosbarth yn hawdd a dw i'n hapus iawn i fod yn gweithio fel athrawes yn y Cyfnod Sylfaen yn Rhydypennau. Bydd y bennod nesaf yn un cyffrous!







# CYLCH CINIO

A ninnau ar drothwy tymor yr Haf penderfynwyd mai gwesty'r pedwar tymor, y Four Seasons yng nghanol tref Aberystwyth fyddai'n gartref i ni ar gyfer mis Mai a hynny yng nghwmni Daniel Burgess, Castellnewydd Emlyn. Cafodd Daniel ei fagu yn Nhrawsgoed lle roedd ei rieni Gwen a Tony Burgess wedi sefydlu busnes llwyddiannus iawn dan yr enw Wyau Alltfedw (Birchgrove Eggs) yn dosbarthu wyau ledled Cymru a hynny tan eu hymddeoliaf rai blynyddoedd yn ôl.

Yn gyn-ddisgybl o Ysgol Llanafan ac Ysgol Gyfun Penweddig dewisodd Daniel fynd yn fyfyriwr i Brifysgol Harper Adams yn Swydd Amwythig lle daeth dan ddylanwad Yr Athro Wynne Jones ( sy'n aelod ffyddlon o'r Cylch Cinio) a graddio mewn Gwyddoniaeth yr Amgylchedd a Chadwraeth. Bu'r profiad yn y Coleg yn ysgogiad iddo feddwl yn ehangach ac er fod ei gefndir yn myd amaeth mae ei yrfa wedi ymestyn cryn dipyn yn arbennig i fyd datblygu economaidd. Mae ei brofiad o weithio i adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus yn sylweddol ac yn cynnwys MAFF, DEFRA, yr Awdurdod Afonydd a'r Cyngor Cefn



**Tri o gewri'r Cylch Cinio gyda'r gwestai Daniel Burgess (ail o'r chwth) a fagwyd yn Nhrawsgoed, yng nghyfarfod mis Mai. Hefyd yn y llun mae Yr Athro Wynne Jones, Vaughan Griffiths, Cadeirydd a Sion Griffiths**

Gwlad. Mae wedi gweithio o dan ofal pedwar Prif Weinidog a threuliodd gyfnod yn gweithio dros Gymru ym Mrwsel a hynny yn ystod y cyfnod pryd y pleidleisiodd gwledydd Prydain adael yr Undeb Ewropeaidd. Ar hyn o bryd mae'n llywio gwaith ARFOR y corff arloesol newydd sy'n ceisio rhoi cefnogaeth ac ysgogi pobol ifanc y Fro Gymraeg i fyw ac i weithio yn yr ardaloedd hyn ac yn arbennig i apelio at y rhai sydd wedi eu gorfodi i adael yr ardal i chwilio am waith i ddychwelyd adre ac i "lwyddo'n lleol".

Mae newydd gael ei apwyntio i weithio i Gyngor Sir Powys a disgwylir y bydd ei brofiad helaeth ac amrywiol o gymorth i ardaloedd gwledig y Canolbarth yn ystod y cyfnod ariannol heriol sydd ohoni. Wrth ddiolch iddo dywedodd Sion Griffiths bod creu cyfleoedd i bobl ifanc i weithio, i fyw ac i fagu plant yn mro eu mebyd yn gwbwl hanfodol er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus o safbwynt yr economi a'r Iaith a'r diwylliant Cymreig. Mae hyn yn waith sy'n holl bwysig a dylid llongyfarch Daniel a'i debyg am ymgymryd at yr her a cheisio rhoi gobaith newydd i'n pobol ifanc.

Enillwyd y raffl gan Gwynfor Williams a wnaeth, yn ôl ei haelioni arferol, gyflwyno'r botel o win i'r siaradwr am ei anerchiad. Roedd Huw Williams yr Ysgrifennydd wedi derbyn cais gan y Gymdeithas Cerdd Dant i'r Cylch Cinio noddi yr Ŵyl Cerdd Dant sydd i'w chynnal yn Aberystwyth yn 2025. Cytunwyd yn unfrydol i gyfrannu £500. a hynny at y gystadleuaeth Côr Cerdd Dant Agored.

---

Cafodd aelodau'r Cylch Cinio eu plesio'n fawr wrth gyrraedd Clwb Pel-droed Penrhyn-coch o weld mai Tegwen Morris Aberystwyth oedd siaradwraig wadd y mis. Mae Tegwen yn bersonoliaeth boblogaidd, bywiog a lliwgar ac mae'n adnabyddus iawn yn lleol ac mae ganddi broffil cenedlaethol trwy Gymru fel Cyfarwyddwr Cenedlaethol mudiad Merched y Wawr.

Yn ystod ei sgwrs fe aeth hi a ni yn ol i fro ei mebyd a'i magwraeth ar fferm yn Ffald y Brenin Sir Gar. Mae stamp yr ardal hyfryd honno a gwerthoedd y gymdeithas glos Gymraeg wledig yn drwm ar ei phersonoliaeth. Clywsom am yr ysgolion lleol, 'Operation Julie' a dyfodiad yr hipis i'r ardal, dylanwad mudiad y Ffermwyr Ifanc ar ieuenctid y fro ac am fywyd cymdeithasol ac amaethyddol cefngwlad Sir Gaerfyrddin. Aeth i Goleg y Drindod, Caerfyrddin i'w hyfforddi i fod yn athrawes ac ar derfyn y cyfnod penderfynodd dorri cwys ei hunan a dilyn cwrs MA



ym Mhrifysgol Caerdydd mewn Astudiaethau Gwerin a olygai gydweithio gyda'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan. Dewisodd Gweision Ffermydd fel testun ei thraethawd a chasglodd gyfoeth o wybodaeth am fywyd a gwaith degau o weision a fu,ar un adeg, yn ganolog yn y bywyd gwledig.

Wedi treulio cyfnodau yn gweithio gyda Mentrau yn Sir Drefaldwyn cafodd ei hapwyntio yn Drefnydd Cenedlaethol Mudiad Merched y Wawr yn 1999 a rhoddod i ni bictiwr o'i bywyd prysur yn gweinyddu a threfnu prosiectau i filoedd o ferched dros Gymru. Sefydlodd nifer o bartneriaethau gyda sefydliadau a mudiadau ac elusennau er mwyn datblygu'r mudiad i fod a chryn ddylanwad o safbwynt Cymru a'r Gymraeg. Mae ei chyfraniad wedi ei gydnabod gyda'r Wisg Las gan Orsedd y Beirdd.

Talwyd y diolchiadau gan Lewis Owen, Trawsgoed a dywedodd bod Tegwen i'w llongyfarch am gadw cystal trefn ar ferched - tasg sydd wedi profi'n drech na sawl aelod o'r Cylch Cinio, meddai.

Enillydd y raffl y mis hwn oedd Gwynfryn Evans, Llandre.

Diolchodd y Cadeirydd Vaughan Griffiths i staff y Roosters am ddarparu pryd teilwng o fwyd.

cetmorgan@icloud.com
07966 510195

Trydan
WILL DAVEY
Electrical & AV


- Gosodiad Trydanol Ardystiedig
- CCTV a AV
- Arolygu & Phrofi
- Pŵeru cerbydau trydan
- Gosod PV solar

GWYNFA, PISGAH, ABERYSTWYTH, SY23 4NE
07581 173 684 info@willdavey.co.uk @trydanwilldavey

# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Er mai 'pecyn wedi ei lapio' yw ystyr gyffredin *parsel* i ni heddiw, un o ystyron cynharaf y gair yw 'rhan, cyfran, darn', ac yn deillio o hynny 'darn o dir neu randir' sef y brif ystyr mewn enwau lleoedd.

Ffurf luosog y gair, *parselau*, a geir yn yr enw *Rhosparselau* (SN648820) am dŷ annedd sy'n sefyll â'i dalcen at y ffordd ar y gefnen rhwng Capel Madog a Phen-llwyn. Mae'n hawdd dychmygu mai rhostir oedd yma wedi ei rannu'n amryw ddarnau tir neu'n rhandiroedd.




**Map Arolwg Ordnans 6" Ceredigion VI SE (1906)**
© Arolwg Ordnans (100064713)


Gellir olrhain yr enw *Rhosparselau* yn ôl i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac er mai fel *Rhos Cottage* y cofnodir ef ar fapiau diweddaraf yr Arolwg Ordnans, mae'n dda gweld bod yr enw gwreiddiol yn parhau i gael ei gydnabod ar y llidiart heddiw yn ogystal.




Gellir cymharu'r enw â *bron y parcele* a gofnodwyd yn llawysgrifau Edwinsford (1293) yn 1554 ym mhlwyf Llanfihangel Genau'r-glyn, a *Dol-y-parsele* sy'n digwydd yng ngweithredoedd stad Trawsgoed (113) yn 1680 am le yn ardal Henfynyw ger Aberaeron.

Mewn gwirionedd, nid dyma'r unig ystyr sydd i'r gair *parsel* mewn enwau lleoedd; gall hefyd olygu 'tref ddegwm' sef israniad plwyf. Dyna yw ei arwyddocâd mewn enwau hanesyddol megis *Parsel Trefeurig*, *Parsel Melindwr*, *Parsel Canol*, *Parsel Isa yn y Faenor*, a *Pharsel Uchaf yn y Dref* am rai o unedau gweinyddol yr ardal.

Roedd iddo ddefnydd ehangach hefyd gan y byddid yn cyfeirio weithiau at ffyrdd swyddogol y byddai'r awdurdodau yn gyfrifol am eu cynnal a'u cadw fel 'ffyrdd parsel'. Dyma a welwn mewn adroddiad am gyfarfod Cyngor Plwyf Trefeurig ym mhapur *Baner ac Amserau Cymru* ar 1 Awst 1896 (t.8):


gwybodaeth i'r cynghor erbyn y cwrdd nesaf. Galwyd sylw gan Mr. James Davies, Cwm Erfin, at gyflwr y ffordd sydd yn arwain o Penybont i fyny ar hyd y Cwm hwnw. Gofynwyd a ydyw hon yn 'ffordd barsel.' Dywedai rhai ei bod, a dywedai eraill nad ydyw. Cynnygiwyd gan Mr. J. Davies, ac eiliwyd gan Mr. T. Williams; a phasiwyd yn unfrydol, fod dau i gael eu pennodi i fyned at awdurdodau y ffyrdd i gael gwybod pa mor belled i'r Cwm yr ä y 'ffordd barsel' i fyny;

Ond a dychwelyd at enwau'r trefi degwm, gollyngwyd y label *parsel* ohonynt dros amser, gydag un eithriad, *Parsel Canol*, lle na fyddai'n bosibl i *Canol* sefyll ar ei ben ei hun, wrth reswm. Tref ddegwm wledig oedd hon yn gorwedd ar lan ogleddol afon Rheidol, ac wedi ei hamgylchynu gan drefi degwm Trefeurig, Melindwr, a'r Faenor Uchaf. Uwchraddiwyd trefi degwm plwyf helaeth Llanbadarn Fawr yn blwyfi sifil annibynnol yn 1894, ond diddymwyd plwyf *Parsel Canol* yn 1987 gyda'r rhan helaethaf ohono'n cael ei ymgorffori ym mhlwyf Trefeurig.

Fel mae'n digwydd, yn hen dref ddegwm *Parsel Canol* y safai *Rhosparselau*. Er y gellid dadlau bod *parselau* yma hefyd yn golygu 'trefi degwm', gan ddehongli'r enw fel 'rhostir yn ymestyn dros ffiniau mwy nag un dref ddegwm', mae hynny'n annhebygol gan fod *Rhosparselau* yn gorwedd yn union yng nghanol y dref ddegwm ac ymhell o'i ffiniau.

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru
a Geiriadur Prifysgol Cymru www.geiriadur.ac.uk

ADWEITHEG
Bethan Ifan
Aberystwyth
07375422608
Tocynnau rhodd ar gael

COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
01970 617120
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru



## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Trec ceffylau**
Dydd Llun Calan Mai cynhaliwyd trec ceffylau i godi arian I Sioe'r Cardis 2024. Casglodd 61 o geffylau ar gae Llety'r Bedol i ddechrau ar y daith o amgylch Aber-ffrwd Pontarfynach a Chwmrheidol. Roedd pwyllgor Sioe'r Cardis wedi paratoi lluniaeth yn barod ar gyfer pawb a gyrhaeddodd yn ôl yn ddiogel. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn gyda swm sylweddol o arian wedi ei godi. Diolch i bawb am bob help.

**Cyfweliad**
Cyhoeddwyd cyfweliad difyr cwestiwn ac ateb gyda Carwyn Daniel yn rhifyn Mehefin o bapur bro *yr Angor*. (Gol.)



## Colofn **Elin Jones AS**

Yng nghanol bwrlwm amser gwneud silwair a gwair daeth newyddion da i'r gymuned amaethyddol yn ddiweddar, wrth i Weinidog Materion Gwledig newydd Llywodraeth Cymru, Huw Irranca-Davies AS, gyhoeddi gohirio cyflwyno'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS). Y Cynllun yma oedd y prif reswm bu'r gymuned amaeth yn prostestio'n gynharach eleni, ac mae'r Gweinidog wedi dweud bydd mwy o waith a thrafod pellach yn mynd rhagddi i adolygu materion ddaeth i'r amlwg drwy'r ymgynghoriad, cyn i'r cynllun ddechrau yn 2026. Dwi'n gobeithio cewn fersiwn mwy ymarferol o'r Cynllun, fydd yn rhoi llai o faich ar ein ffermwyr, er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd â'n dyhaead ni oll i gynhyrchu bwyd, cynnal cymunedau gwledig, a lleihau'r effaith ar newid hinsawdd.

Daeth mwy o newyddion da hefyd, wrth i'r Llywodraeth gyhoeddi adroddiad terfynnol eu ymgynghoriad ar y flwyddyn ysgol, a datgan na fyddant yn cyflwyno unrhyw newidiadau i batrwm y flwyddyn ysgol o fewn tymor y Senedd yma. Byddant nawr yn mynd ati i ystyried sut mae rhoi'r cefnogaeth gorau i ddisgyblion mwyaf bregus ein cymdeithas yn ystod cyfnod hir gwyliau'r haf. Bu gofid mawr byddai cyflwyno newid yn cael effaith andwyol ar ddigwyddiadau haf Cymru, megis y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol.

Mae nifer helaeth ohonoch yn parhau i gysylltu â mi am y trafferthion rydych yn ei wynebu wrth geisio cael deintydd drwy'r Gwasanaeth Iechyd. Rwy'n trafod hyn yn rheolaidd gyda'r Bwrdd Iechyd, ac yn anffodus nid yw'n rhywbeth gallwn ddisgwyl gweld yn gwella dros nos, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i geisio gwella'r ddarpariaeth o fewn y sir ac maent wrthi'n ceisio recriwtio mwy o ddeintyddion Gwasanaeth Iechyd. Yn y cyfamser, os fyddwch angen gweld deintydd ar frys, y cyngor yw i chi ffonio 111, a bydd modd dod o hyd i apwyntiad brys i chi drwy ddeintydd lleol.

Mae gwaith yn parhau yn y cefndir wrth i'r Cyngor Sir gymryd cyfrifoldeb dros y gofal yng Nghartref Hafan y Waun yn Aberystwyth. Mae cynlluniau ar gyfer y cartref yn bwriadu cynnig gwelyau dros dro i rheini sy'n barod i adael yr ysbyty, ond sydd ddim eto yn ddigon da i ddychwelyd i'w cartref heb gymorth. Y gobaith yw bydd hyn yn rhyddhau gwelyau ar wardiau Bronglais yn gynt, ac felly'n gwella llif y cleifion drwy'r adran brys, gan leihau'r aros hir sydd yno'n ddiweddar.

Mae'n siwr fydd nifer ohonoch wedi sylwi fod etholiad ar y gorwel. Diolch i Ben Lake am ei holl waith dros Geredigion, a phob hwyl iddo ef a phawb sy'n sefyll yn yr etholiad. Bosib byddwch yn ymwybodol bod ffiniau'r etholaeth yn newid yn yr etholiad yma i gynnwys gogledd Penfro, gan greu etholaeth Ceredigion Preseli. Felly cofiwch fynd i daro eich pleidlais ar ddydd Iau y 4ydd o Orffennaf, a pheidiwch anghofio mynd â dogfen adnabod/ID gyda chi i'r orsaf bleidleisio.


Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
Byddwn yn agor am 5.30 yn ystod yr wythnos am yr ychydig fisoedd nesaf.
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF / CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ

01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Yswiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816/01974 261758

## Llandre

**Priodas**
Ar Ebrill 27, priododd Dylan Huw o Landre ac Elgan Rhys o Bwllheli yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Maen nhw bellach wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon, lle mae Elgan yn gweithio i Gwmni Frân Wen a Dylan yn sgwennwr llawrydd. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau a phob hapusrwydd i'r dyfodol!



**Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Megan Griffiths ddaeth yn ail ar gyfansoddi sgript wreiddiol bl.10 ac o dan 19 oed a 3ydd yn y gystadleuaeth Rhyddiaith bl.10 ac 11 yn Eisteddfod yr Urdd.
Mae Megan hefyd yn aelod o griw Llanw.

Llongyfarchiadau anferth iddyn nhw ar ennill rownd Cymru a Phrydain o gystadleuaeth Menter yr Ifanc ar Fai 16. Byddant yn mynd ymlsen rwan i Sicilia ym mis Gorffennaf.

## Cyngor Cymuned **Melindwr**

Cynhaliwyd Cwrdd Blynyddol y Cyngor ar nos Iau Mai 16 2024 gyda'r cadeirydd Sarah Hughes yn y gadair. Ail etholwyd y Cyngorydd Sarah Hughes yn gadeirydd a Lynne Davies yn glerc ac etholwyd y Cynghorydd Tom Holt yn is-gadeirydd. Yn dilyn cynhaliwyd y cyfarfod misol. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth dau o'r cynghorwyr.

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod mis Ebrill fel rhai cywir.

Roedd y clerc wedi derbyn llythyr o ymddiswyddiad oddi wrth dau gynghorwr, sef Jim Palmer ac Andrew Wright. Hoffai'r Cyngor ddiolch iddynt am eu gwaith dros Gyngor Cymuned Melindwr. Mae Louise Short wedi penderfynu ymuno a'r Cyngor. Os oes gan rhywun ddiddordeb mewn ymuno a'r Cyngor cysylltwch a'r clerc neu un o'r Cynghorwyr.

Roedd un cais cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor sef A240333, Meadowside, Goginan. Nid oedd gwrthwynebiad i'r cais. Mae manylion llawn ceisiadau cynllunio i'w cael ar safle we Cyngor Ceredigion.

Os oes gan rhywun luniau o Ddyffryn Rheidol a fyddai yn addas i'w cynnwys ar wefan newydd sydd yn cael ei datblygu i'r Cyngor Cymuned byddem yn ddiolchgar. (ebost – cyngorcymunedmelindwr council@gmail.com).

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Mehefin 20 yn Neuadd Pen-llwyn Capel Bangor am 7.30yh.

# Mary Thomas

**Mary Garej Mary Rhydronnen**
**Mary Croesawdy**
**1932-2024**




Ganwyd Mary i Lewis a Leus Jones ar Fai 11 1932, yn Rhyd yr Onnen, Cwm Ceulan. Hi oedd yr unig blentyn yn y cwm felly fe'i magwyd gan ei rhieni gyda'i thad yn sôn am helyntion fel dal llwynogod mewn oes heb gar na ffôn pan gerddai pawb i bob man. Newidiodd pethau pan aeth hi i ysgol Tal-y-bont a mynd i lodgio i Dŷ Hen gyda theulu gan fynd adref ar benwythnosau. Yno oedd hi pan ddechreuodd yr Ail Ryfel Byd, a newidiodd pethau pan ddaeth Efaciwis i'r cylch a bu'n rhaid ymarfer yr air raid drill gyda'r plant yn dianc lan i'r coed tu ôl i'r ysgol. Fe basiodd yr 11 plus a mynd i Ardwyn lle bu yn ddisgybl disglair.

Ar ôl gorffen yn yr ysgol aeth i Goleg Athrawon Townhill, Abertawe, lle cymhwysodd i fod yn athrawes. Gweithio mewn ysgol ym Mhontypridd cyn dychwelyd i Sir Aberteifi i Ben-uwch ac yn ddiweddarach yn brifathrawes Ysgol Goginan. Dyma pryd y dechreuodd ei diddordeb mewn drama, daeth ei thalent i'r amlwg yn hwyrach yn sgwennu sgetsus ac actio ynddynt yn nghystadlaethau Merched y Wawr. Bu'n dysgu yno nes iddi briodi yn Llanafan, gydag Elwyn oedd wedi dod nôl i'r ardal. Yn yr adeg hon doedd hi ddim yn arferol i ddynes briod gario mlaen i fod yn athrawes. Felly, daeth diwedd i'w gyrfa fel athrawes. Symudodd Elwyn a Mary i fyw i Neuadd Fach, ar gyrion Tal-y-bont nid nepell o Dŷ Hen.Tra'n byw yno ganwyd Philip; yna symud i Gartrefle - ar bwys y garej wrth i Walter Thomas ymddeol - lle ganwyd Owen a Mair; wedyn i Landre i hen gartref teulu Elwyn, Croesawdy.

'Roedd y teulu nawr ynghanol y pentref, a rhyddid i ni blant fynd a dod i chwarae. Ac roedd croeso bob amser yng Nghroesawdy. Bu'r cyfnod yma yn brysur iawn iddi rhwng edrych ar ôl ni'r plant, gofalu am y genhedlaeth hŷn o'r teulu a gwneud gwaith i'r garej. Dros y blynyddoedd bu'n ymwneud â chynorthwyo mudiadau lleol hefyd yn ddiflino. Merched y Wawr, *Y Tincer***, pwyllgorau ysgolion, yr henoed, y capel, y cyngor cymuned, cymdeithasau hanes teuluol, Treftadaeth Llandre ac yn y blaen.

Yna aeth Elwyn yn sâl gyda leukaemia a bu mam yn gofalu amdano. Collon ni Elwyn yn 1996 yn 63 mlwydd oed. Yn 1998 fe ddaeth yn fam-gu, ac yn y blynyddoedd nesaf ganwyd Daniel, Dafydd, Gwenllian a Hannah i Kate a Philip ac Ifan a Huw i Mair ac Alun. Cododd Owen fyngalo, Dolgelynen, ac fe aeth hi i fyw ynddo. Pan ddaeth Covid a'r gwanwyn hyfryd yna fe fu Mary a Lena yn eistedd tu fas i Dolgelynen yn gwylio'r byd yn mynd heibio. Roedd pawb allan yn cerdded, ac mi oeddent yn gweld llwyth o bobl bob dydd. Yn y blynyddoedd diwethaf fe ddaeth ei hesgyrn yn frau, fe dorrodd sawl un, ond mi ddeuai yn ôl adref bob tro. A hyn i ofal tyner a charedig Owen. Bu ei ofal tyner, gyda chynorthwy Mair a nyrsus y Borth a Meddygfa'r Llan yn amhrisiadwy.

Ond pwy oedd hi? Doedd hi byth ddim moyn siarad amdani hi ei hunan, ond mi ddefnyddia i y geiriau a ddefnyddiwyd amdani yn y negeseuon;

Annwyl, caredig, doeth, diwylliedig, ffyddlon, serchog, hyfryd, arbennig, galluog, boneddigaidd, cryf, deallus, gwybodus, diddorol, diymhongar, ffrind.

**Teyrnged Phil Thomas yn yr angladd wedi'i golygu**

** Bu'n olygydd *y Tincer* rhwng Medi 1983 a Hydref 1985 (Gol.)

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Marchnad Aberystwyth 25 Mai 2024**
**894**

Llai o gyfanswm heddiw gyda masnachu da drwyddi draw. Roedd yna lai o ddefaid tewion yn cael eu cynnig, Cyfartaledd fel hyn:

Defaid lladd (471) Cyfartaledd £93.90 Mwy £178 gan Owen, Esgairgyfela, Tywyn

Cyplau defaid ac wyn (228). Cyfartaledd £139. Mwy £202 gan Clifton, Talwrn, Trefenter.

Ŵyn blwydd (133). Cyfartaledd £83.90. Mwy £168 gan Innovis, Peithyll.

Hyrddod (46). Cyfartaledd £121.30. Mwy £196 gan Corfield, Blaencarrog, Llanddeiniol

Ŵyn cynnar (13). Cyfartaledd £135. Mwy £170 gan James, Penyberth Isaf, Aberystwyth

Fel hyn oedd hi heddiw popeth yn gwerthu yn dda ond ddim mor wyllt a'r sêl ddiwethaf.

Diolch am y gefnogaeth gan brynwyr a chynhyrchwyr.



**Priodas**

Dymnuniadau gorau i Ifan Hywel a Manon Dafydd briodwyd yn Nant Gwrtheyrn ar Fehefin 3ydd.

## Cyngor Cymuned **Trefeurig**

Cyfarfu'r Cyngor **nos Fawrth, 16 Ebrill**, yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.00yh gyda'r Cadeirydd, Eirian Reynolds, yn y gadair. Roedd Llewelyn Evans, Mel Evans, Delyth James, Shân James, Dai Mason, Richard Owen, Gwenan Price a Meirion Roberts yn bresennol ynghyd â'r Clerc, Meinir Jenkins.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lowri Emlyn, a oedd yn parhau i wella ar ôl triniaeth, a'r Cynghorydd Sir, Caryl Gruffydd Roberts.

Materion yn codi: Maes Seilo – dim gwybodaeth bellach. Gwefan newydd y Cyngor – roedd y wefan newydd wedi'i lansio, ond roedd angen ychwaneg o waith arni a hyfforddiant I aelodau. Golau wrth Faesyrefail – roedd posibilrwydd o gael golau solar . Pe llwyddid i sicrhau un, yna'r Cyngor Cymuned fyddai'n gyfrifol am wneud cais i gael caniatâd i gael golau newydd, yswiriant a chynnal a chadw. Clwb Pêl-droed – mae'r Clwb wedi gwneud gwelliant dros dro i wyneb y maes parcio. Llun o frenin Lloegr – roedd y llun wedi cyrraedd; nid oedd gan Bwyllgor y Neuadd le ar ei gyfer, felly penderfynwyd holi'r Eglwys a'r Clwb Pêl-droed a ddymunent ei gael.

Cynllunio: A240205 – newidiadau sylweddol i Bantyffynnon, Penrhyn-coch, gan gynnwys chwalu'r tŷ presennol a chodi un arall yn ei le. Dim sylwadau.

Cyfarfu'r Cyngor am ei gyfarfod blynyddol a'r cyfarfod misol arferol **nos Fercher, 29 Mai** yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch gyda'r Cadeirydd, Eirian Reynolds, yn y gadair. Roedd Llewelyn Evans, Delyth James, Shân James, Dai Mason, Richard Owen a Gwenan Price yn bresennol ynghyd â'r Clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Meirion Roberts a Lowri Emlyn, a chan y Cynghorydd Sir.

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad byr am waith y Cyngor yn ystod y flwyddyn a aethai heibio, a diolchodd i'w gyd-swyddogion ac aelodau'r Cyngor am bob hwylustod yn ystod ei dymor fel Cadeirydd. Diolchwyd i Eirian am ei wasanaeth gan Dai Mason a Richard Owen.

Etholwyd Richard Owen yn Gadeirydd ar gyfer 2024-25 a Delyth James yn Is-gadeirydd. Etholwyd y canlynol i gynrychioli'r Cyngor ar wahanol gyrff: Patrasa – Gwenan Price; Corff Llywodraethol Ysgolion Penrhyn-coch a Chapel Bamgor – Eirian Reynolds; Neuadd y Penrhyn – Gwenan Price a Delyth James, Cartref Tregerddan – Gwenan Price; Cae Chwarae Pen-bont – Dai Mason; Y Wasg – Richard Owen; Pwyllgor Adnoddau Dynol - Eirian Reynolds, Mel Evans a Richard Owen.

Yna fe aed ymlaen gyda chyfarfod arferol mis Mai.

Materion yn codi: Golau ger Maesyrefail – roedd amcangyfrif y byddai cost golau solar newydd ychydig dros £3,000. Roedd y Clerc am wneud ymholiadau am grantiau. Llun brenin Lloegr – adroddwyd fod y Clwb Pêl-droed am roi cartref i'r llun.

Cynllunio: A240203- ymestyn a thrin ystafelloedd newid y Clwb Pêl-droed, a rhoi wyneb newydd yn lle'r cwrt tennis fel y byddai'n fan addas ar gyfer ymarfer sawl math o chwaraeon.

Roedd y Cyngor yn cefnogi'r cais ond ar yr amod y byddai'r cyfleuster newydd ar gael ar gyfer y gymuned yn gyfan ac nid ar gyfer y Clwb Pêl-droed yn unig. Fe wnaeth Richard Owen ac Eirian Reynolds ddatgan budd wrth drafod y cais hwn.









# Y Borth

**Gŵyl BorthFfest**

Roedd Y Borth yn ferw o weithgaredd dros benwythnos Gŵyl y Banc Sulgwyn wrth i'r pentref gynnal gŵyl gelf newydd sbon.

Un o nifer o uchafbwyntiau Gŵyl BorthFfest oedd dangos dwy bennod o'r gyfres deledu Y Gwyll a ffilmiwyd yn y pentref yn 2013.

Roedd y dangosiad yn Libanus yn rhad ac am ddim, a mawr yw ein diolch i Grug a Peter Fleming am newid eu hamserlen a chaniatàu i ni gymryd eu sinema anhygoel drosodd am y prynhawn.

Roedd y lle yn orlawn a braf oedd gweld y pentre fel ag yr oedd dros ddeng mlynedd yn ôl. Difyr hefyd oedd gweld rhai o bobl y pentre yn cael eu hanfarwoli ar sgrîn mor fawr!

Pan glywodd cyfarwyddwr y gyfres, Ed Thomas, ein bod yn bwriadu dangos y ddwy bennod fel rhan o arlwy'r ŵyl, fe gynigiodd, heb feddwl dwywaith, i ddod atom i gynnal sesiwn holi ag ateb. Ar ôl gwylio'r ffilm am awr a hanner felly, camodd Ed ac Esther Prytherch i'r llwyfan ac fe gawsom awr ddifyr arall, yn gyfuniad o gwestiynau gan Esther a llu o gwestiynau o'r gynulleidfa.

Eitem ddwyieithog arall oedd yn rhan o'r ŵyl ar ddydd Sul 26 Mai oedd sesiwn goginio gyda Nerys Howell. Dyma'r eilwaith i Nerys ein difyrru yn y Borth eleni wedi iddi lawnsio'i llyfr *Cywain* yn 2 London Place ychydig fisoedd yn ôl, ac unwaith eto roedd cefn y siop yn orlawn gyda phobl o bob oed yn gofyn cwestiynau da yn yr awyrgylch hamddenol, gyfeillgar mae Nerys wastod yn ei greu.

Daeth y sesiwn i ben gyda phawb yn blasu danteithion grewyd o'n blaenau! Un ohonynt oedd tarten cennin, cennin sifi a chaws ac mae Nerys wedi cytuno'n garedig i rannu'r rysait gyda darllenwyr Y Tincer.

**TARTEN CENNIN, CENNIN SIFI A CHAWS**

Mae'r darten yma yn llawn dop o gennin ac yn llai cyfoethog na Quiche Lorraine cyffredin. Mae angen coginio'r crwst yn 'ddall' er mwyn arbed y cennin rhag achosi'r crwst i fod yn rhy wlyb. Mae'r crwst o flawd cyflawn yn creu ansawdd mwy crimp a chrensiog ac yn bartner perffaith i'r cennin sidanaidd!

*Cynhwysion*

Crwst -200g blawd cyflawn a 100g menyn oer
3 cennin canolig
2 llwy fwrdd menyn
1 llwy fwrdd olew had rep
Nytmeg
4 ŵy
120g crème fraiche
50g o gaws Cerwyn, Teifi neu Cheddar
Llond llaw cennin syfi

*Dull*

1. Ar gyfer y crwst rhowch y blawd mewn bowlen, yna gratiwch menyn oer iddo a chymysgu gyda blaenau'r bysedd tan ei fod fel briwsion bara. Ychwanegwch ddigon o ddŵr oer i'w gymysgu yn does llyfn.
2. Roliwch y toes yn gylch digon mawr ar gyfer tun fflan 23cm o led. Gwasgwch y crwst i'r ymylon a'i roi i orffwys yn yr oergell.
3. Yn y cyfamser, golchwch y cennin a'u sleisio'n denau gan ddefnyddio cymaint o'r dail gwyrdd a phosib.Toddwch yr olew a'r menyn mewn padell 'saute' a ffrio'r cennin dros wres canolig i isel am tua 30 munud tan eu bod fel rhibannau meddwl. Tynnwch nhw oddi ar y gwres ac ychwanegu halen, pupur a nytmeg ffres wedi'i gratio.
4. Cynheswch y ffwrn i 180C/160Fan/Nwy 4. Gwnewch dyllau gyda fforc ar waelod y crwst, leniwch gyda phapur gwrthsaem a ffa pobi a'i goginio am 15 munud cyn tynnu'r ffa a'r papur a'i ddychwelyd i'r ffwrn am 5 munud arall.
5. Curwch yr wyau mewn jŵg mawr yna ychwanegu'r crème fraiche a'i throi'n dda.
6. Rhowch ddwy ran o dair o'r cennin yn y crwst a'u lledaenu dros y gwaelod gyda'r caws beny cennin. Arllwyswch y gymysgedd wyau dros y cennin yna gweddill y cennin os oes lle. Gratiwch fwy o nytmeg dros y cennin a'i bobi am 25-30 munud tan ei fod wedi setio ond yn dal ag ychydig o sigl iddo.
7. Torrwch y cennin sifi yn fân a'i sgeintio dros ei ben cyn gweini.





Arbenigwr glanhau popty a charped
Phil 07534 213229
cwtch.mw@outlook.com
PRO-TEK CLEANING SOLUTIONS

WEST WALES ANTIQUES CAPEL BANGOR
Ydych chi angen gwerthu hen bethau, neu efallai angen gwacâu tŷ?
• Dodrefn • Arwyddion Enamel • Tacsidermi • Peintiadau • Cerflunwaith a Dodrefn Ardd • Hysbysebion • Carthenni • unrhywbeth hen neu anarferol!
Prynwr a Gwerthwr Hen Bethau
www.west-walesantiques.co.uk 07866 005996 dryburghantiques@gmail.com


Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?
Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion – Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd






**Gŵyl y Bwganod Brain**
Dychwelodd yr ŵyl fel rhan o ddigwyddiad BorthFfest gyda 54 o fwganod brain o bob lliw a llun yn harddu'r pentref. Arwyr ac arwresau oedd y thema eleni gyda bwangod ar ffurf Blodeuwedd, Owain Glyndwr, y genhades heddwch Annie Hughes-Griffiths, y gantores Blondie, Arglwyddes Y Rhondda (Margaret Haig Thomas) a nifer o rai eraill. Ben Lake oedd y beirniad a'r tri unigolyn a ddaeth i'r brig yn ei dŷb ef oedd:

1. Alan Bates – 1st Class Hero
2. Arglwydes Rhondda
3. Owain Glyndŵr




Yn y categori ar gyfer busnesau a grwpiau cymunedol, y Cadwriaethwyr o Fri aeth â hi gyda Frida Khalo yn ail a Maelgwn Gwynedd yn drydydd. Enillydd pleidlais y bobl oedd 'Donkey Doyle', teyrnged i Mr Doyle a fu'n mynd â'i asynod ar hyd y traeth bob haf am ddegawadau; roedd Ceidwad y Cytiaid Torchog yn ail a Peter Rabbit yn drydydd.

Codwyd dros £100 drwy werthu mapiau yn dangos lleoliadau'r bwganod brain ar hyd a lled y pentref a bydd yr arian yn mynd at Hwb Cymunedol Y Borth ar gyfer cynnal sesiynau celf sy'n dwyn ynghyd yr hen a'r ifanc.

**Dathlu gwaith gwirfoddolwyr**
Cynhaliwyd digwyddiad arbennig yn Hwb Cymunedol Y Borth ar ddydd Gwener 10 Mai i ddiolch i Margaret Haynes a Rona Dalton Thompson am eu gwaith gwirfoddol anhygoel dros gyfnod o 10 mlynedd.

Bu Margaret yn gwirfoddoli am nifer o flynyddoedd gyda sesiynau chwarae a digwyddiadau amrywiol. Roedd hi'n aelod cyson o'r sesiynau wythnosol a gynhaliwyd yng Nghapel Noddfa, Bow Street, ac roedd bob amser yn cefnogi diwrnodau chwarae a phicnic blynyddol y Tedi Bêrs. Daeth Margaret yn un o ymddiriedolwyr yr elusen tua chwe mlynedd yn ôl.

Rona oedd ysgrifennydd yr elusen am naw mlynedd ac ni gollodd yr un cyfarfod yn ystod y cyfnod hwnnw. Bu'n gyfrifol am arwain yr elusen drwy newidiadau a phan oedd angen Trysorydd newydd, fe gamodd Rona i'r adwy ar unwaith. Hi hefyd oedd un o arweinwyr rheolaidd y grŵp Cerdded Er Lles wythnosol. Bu gwaith Rona a Margaret yn amhrisiadwy dros y blynyddoedd ac wedi helpu'r elusen i fynd o nerth i nerth. Daeth nifer o bobl y pentref ynghyd i ddiolch i'r ddwy ac i ddathlu eu cyfraniad yn yr heulwen. Os hoffech wybod mwy am wirfoddol gyda Hwb Cymunedol Y Borth, cysylltwch os gwelwch yn dda a helen@borthcommunityhub.co.uk.



## Priodas

Ar ddydd Sadwrn y 1af o Fehefin, priodwyd Rhys Hedd Pugh-Evans, gynt o 5 Ffordd

Clarach, Y Borth a Katie Littlewort (o Ynys Wyth yn wreiddiol), yn Fonthill Estate, Chicklade,Wiltshire. Roedd yn braf croesawu llu o'r teulu a ffrindiau o ardal Aberystwyth a Gogledd Cymru i'r ardal wledig i'r gogledd o Gaersallog (Salisbury) ar ddiwrnod braf o haf.

Mae'r pâr ifanc wedi byw yn Llundain ers rhai blynyddoedd a bellach wedi ymgartrefu yn Penge, de Llundain ers dwy flynedd. Mae Rhys yn swyddog tân gyda Brigâd Dân Llundain yng ngorsaf Gogledd Kensington ers 2019 a Katie yn Reolwraig Trefnu Digwyddiadau yn yr Amgueddfa Astudiaethau Natur yn Llundain. Diolch i bawb am y cyfarchion caredig.



## Arddangosfa Gelf

Eto fel rhan o BorthFfest, cynhaliodd Hwb Cymunedol Y Borth eu trydydd arddangosfa gelf yng nghanolfan Seren y Môr. Y tro hwn, trefnwyd y digwyddiad ar y cyd ag Ysgol Craig yr Wylfa a daeth pobl o bob oed ynghyd i greu celf ar gyfer yr arddangosfa.

Daeth y syniad ar gyfer arddangosfa ar y cyd gan Carol Bainbridge sy'n un o ymddiriedolwyr yr Hwb yn ogystal â chadeirydd llywodraethwyr yr ysgol.

Cadeiriau oedd y thema, wedi'i hysbrydoli gan chwedlau Cors Fochno a Maelgwn Gwynedd.





**Ffarwelio â'r Cyngor**

Mae un o hoelion wyth Y Borth, Bryn Jones, wedi ymddeol o'r Cyngor Cymunedol ar ôl 26 mlynedd o wasanaeth. Cafodd Bryn ei ethol yn aelod yn 1998 ac mae nifer o ddigwyddiadau a datblygiadau wedi aros yn y cof. Ymhlith yr uchelbwyntiau, meddai wrth Y Tincer, roedd ymdrechion y cyngor cymuned a chyngor Ceredigion i sicrhau dros £20 miliwn o arian cyhoeddus i godi amddiffynfeydd môr i ddiogelu'r pentref. Llwyddiant mawr arall mae'n ei gofio yn digwydd yn ystod ei gyfnod oedd cyflwyno cyfyngiadau ar fynd a chŵn ar hyd y traeth rhwng y clogwyn a'r clwb golff.

"Dw i'n gwybod nad pawb sydd o blaid y cyfyngiadau ar gŵn sydd bellach yn dod i rym rhwng 1 Mai a 30 Medi bob blwyddyn a bu cryn ddadlau cyn i ni gael y maen i'r wal," dywedodd Bryn. "Ond mae'r rheol wedi golygu bod traeth Y Borth wedi cadw ei statws Baner Las ac mae hynny'n aruthrol o bwysig i bentref sy'n dibynnu'n helaeth ar incwm o'r diwydiant twristiaeth."




Pwnc llosg arall sy'n aros yn y cof oedd y cynlluniau i godi cerflun o goeden efydd ar y traeth. Ac yntau wedi hyfforddi fel cerflunydd yng Ngholeg Celf Caerfyrddin, roedd Bryn - a'i gyd gynghorydd ar y pryd, y ddiweddar annwyl Gwenllian Ashley - ymhlith y sawl oedd o blaid y prosiect ond roedd y farn yn lleol wedi'i hollti a bu'n rhaid rhoi'r gorau i'r syniad yn y pendraw.

Digwyddiad pwysig arall oedd agor Neuadd Gymunedol newydd yn 1999 wedi i'r hen neuadd goffa losgi'n ulw yn y 1980au.

Nid ar safle'r hen adeilad y codwyd y neuadd newydd ond ar ddarn o dir glas ger y cae pêl-droed a'r maes chwarae plant. Mae'r neuadd wedi dod yn ganolbwynt ar gyfer llu o weithgareddau lleol – yn fan cyfarfod ar gyfer y cyngor cymuned a nifer o grwpiau eraill yn ogystal â lleoliad hwylus ar gyfer sesiynau cadw'n heini, badminton a tenis bwrdd, a digwyddiadau fel y Ffair Elusennau a'r Ffair Grefftau flynyddol.

Pynciau eraill fu'n agos at galon Bryn dros y blynyddoedd oedd hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol, iechyd, y celfyddydau a diwylliant.

Bu hefyd yn cadeirio Grŵp Cynghori Iechyd a Gofal y Borth a ddygodd ynghyd gynrychiolwyr o'r cyngor cymuned, meddygfa'r pentre, yr Hwb Cymunedol, Borth 2030 a Bwrdd Iechyd Hywel Dda i edrych ar sut i weithio gyda'i gilydd er budd iechyd a lles y gymuned, a thrwy hynny lleihau nifer y bobl fyddai angen mynd i'r ysbyty. Yn ogystal, bu aelodau'r grŵp ymhlith y rhai fu'n gweithio i gadw drysau meddygfa'r pentref yn agored ar adeg pan gafwyd trafferth recriwtio meddygon newydd.

Wrth edrych yn ôl ar ei gyfnod fel cynghorydd, dywedodd Bryn: "Mae wedi bod yn fraint, yn anrhydedd ac yn bleser i gael cynrychioli cymuned mor arbennig â hon. Dw i wastad wedi trio gwneud fy ngorau glas dros y pentref a dw i'n ddiolchgar i fy nghyd-gynghorwyr ac i'r etholwyr am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd."

Yn ogystal ag estyn diolch iddo am ei wasanaeth di-flino, hoffem hefyd ddymuno pen blwydd hapus iawn i Bryn oedd yn dathlu'r 70 ar 15 Mehefin.

**Marwolaeth**

Trist iawn oedd clywed y newyddion am farwolaeth sydyn Derrick Davies, Elidir, Stryd Fawr, y Borth, wedi salwch byr, yn 84 oed. Bu Derrick yn gweithio am flynyddoedd ar y lorri ludw yn ardal y Borth, a bu hefyd yn ofalwr y neuadd. Bu'n byw gyda'i frawd Glyn yn y tŷ lle'u ganwyd, a hynt a helynt pentrefwyr y Borth oedd popeth iddo. Cydymdeimlwn yn fawr â Glyn a'r chwiorydd Susan, Dorothy, Jeanette, Nia a'u teuluoedd. Daw'r newyddion trist ychydig fisoedd yn unig wedi iddyn nhw golli chwaer, Bet, yn yr Amwythig.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd gyda Huw (gŵr), Hannah, James a Caitlin (plant) ar farwolaeth Liz Powell yn ei chartref Brynbwl, y Borth ar 2 Mehefin. Cynhelir yr angladd ar 19 Mehefin am 12.00 yn Amlosgfa Aberystwyth. Derbynnir cyfraniadau tuag at Apêl Cemotherapi Uned Bron-glais d/o D.J. Evans, trefnwyr angladdau.



## Aelodau'r RNLI yn y Palas

Teithiodd grŵp o aelodau hen a newydd Bad Achub y Borth i Lundain ym mis Mai ar gyfer garddwest ym Mhalas Buckingham i ddathlu pen blwydd yr RNLI yn 200 mlwyddiant. At ei gilydd, mae gan aelodau'r grŵp dros 130 mlynedd o wasanaeth gwirfoddol gyda bad achub y pentref. Roedden nhw ymhlith 2,500 o wirfoddolowyr a chynrychiolwyr yr RNLI oedd yn bresennol yn yr achlysur ac fe'u croesawyd nhw yno gan y Dywysoges Anne, ei gŵr Syr Tim Laurence a Llywydd yr RNLI Dug Caint.

**Llun (o'r dde): Tim Ellis-Clark (20 mlynedd o wasanaeth), Yvette Ellis-Clark (gwirfoddolwr codi arian), Amanda a Lee Trubshaw (30 mlynedd), Trudie a Mike Wilcox (20 mlynedd), Sian a Will Stockford (y ddau yn gyn aelodau o griw Y Borth a Will yn dal i wirfoddoli gyda Bad Achub Aberdyfi) ac Angie a Louis Delahaye (40 mlynedd).**

# Gwerfyl yn cerdded 100 milltir i lansio ymgyrch codi arian HAHAV



Mae Gwerfyl Pierce Jones, cadeirydd newydd HAHAV, wedi lansio ymgyrch codi arian sylweddol er mwyn datblygu gwasanaethau'r elusen.

Elusen hosbis yn y cartref sy'n gweithio ar draws Ceredigion yw HAHAV. Caiff ei harwain yn bennaf gan wirfoddolwyr ac mae'n cynnig help ymarferol, gofal cymdeithasol a chwmnïaeth i bobl Ceredigion sydd â salwch difrifol sy'n cyfyngu ar eu bywyd.

Mae Gwerfyl yn cymryd yr awenau ar adeg dyngedfennol yn hanes yr elusen. Gyda chanolfan byw'n dda ym Mhlas Antaron ar gyrion y dref a'r galw am ei gwasanaethau yn cynyddu ar draws y sir, y nod yw codi £200,000 yn y flwyddyn nesaf.

Mae Gwerfyl ei hun yn arwain trwy esiampl trwy ddatgan ei bwriad i gerdded 100 milltir ym mis Mehefin ac mae'n gwahodd pobol i'w noddi.

Dywedodd Gwerfyl: 'Mae'r ffordd y mae HAHAV wedi datblygu dros bron i ddegawd yn dyst i ymroddiad gwirfoddolwyr di-ri, ac mae ein dyled yn fawr iddynt.'


'Rydyn ni nawr yn wynebu sefyllfa lle mae angen i ni fuddsoddi yn ein seilwaith. Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol i adnewyddu Plas Antaron fel bod yr adeilad yn cynnig y cyfleusterau gorau posib i ddefnyddwyr. Rydym hefyd am ehangu ein gwasanaeth cymorth yn y cartref ar draws y sir.

Os hoffech gefnogi taith gerdded Gwerfyl mae dolen ar wefan HAHAV – www.hahav.org.uk

Neu mai ffurflen noddi yn Garej Ty Mawr, Penrhyn-coch. Caiff pob cyfraniad ei werthfawrogi.

MID WALES STORAGE
STORFA CANOLBARTH CYMRU

Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer Eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 Awr
Wedi ei wresogo
Bocses a 'bubblewrap' ar lein

MID Wales REMOVALS



www.midwalesstorage.co.uk
Ffon : 01654 703592
Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
SCAN ME

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
***C. T. Evans***

***Perchnogion : Gwyn & Janet Evans***
***Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS***

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat,Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

***Ffôn 01970 820013***
***ebost : gwyn@ ct-evans.com***

RHYD-Y-PENNAU

COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

YTincer@googlemail.com

# Eisteddfod Penrhyn-coch

## Rebecca Thomas, *Y Castell ar y Dŵr*, Gwasg Carreg Gwalch, 2023. £8.50, t.300.

Rhaid rhoi canmoliaeth fawr i Wasg Carreg Gwalch am fwrw ati i gyhoeddi'r gyfres 'Nofelau Hanes Cymru', a thrwy hynny lenwi bwlch amlwg yn ein ffuglen hanesyddol, ac yn enwedig ffuglen sydd wedi'i anelu at, ac sy'n addas i'n hieuenctid. Mynegwyd gofid droeon yn ddiweddar at y diffyg amlygrwydd a roddir yn ein hysgolion i hanes Cymru, a pha mor ddiffygiol yw'r Cwricwlwm Cymreig presennol yn y mater hwn. Wel, mae cael cyfrolau fel y rhain yn sicr o fod o gymorth i gael ein pobl ifanc i ymddiddori yn hanes ein gwlad, a'r cyfoeth o storïau a chwedlau sydd gennym fel cenedl.

Ond yn sicr nid i ieuenctid yn unig y mae'r gyfres hon yn debyg o apelio, ac fel y dengys y nofel hon, *"Y Castell ar y Dŵr"*, gall oedolion gael pleser mawr o'i darllen. Yn ddiweddar gwnaethpwyd arolwg ar-lein o dair o siopau llyfrau Cymraeg i weld pa lyfrau sy'n gwerthu orau. Gwelwyd mai llyfrau gan awduron lleol neu nofelau wedi'u lleoli yn ardal y siopau sy'n gwerthu orau. A gan fod y nofel hon wedi'i lleoli yn agos iawn i'm cartref presennol, a'm bod yn gyfarwydd a'r lleoliad a'r hanes sy'n gysylltiedig â'r lle, es ati'n awchus i ddarllen y gyfrol.

Teyrnas Brycheiniog yn y ddegfed ganrif yw cyd-destun y nofel, a hynny ar adeg pan fo'r Llychlynwyr yn bygwth ac yn ymosod ar Gymru. Mae'r crannog, sydd i'w gweld hyd heddiw ar Lyn Syfaddan yn rhan ganolog o'r stori, ac yn y prolog mae Elwedd, sy'n bedair oed, a'i brawd Tewdwr sy'n chwech oed, yn cael eu harwain i'r crannog er mwyn eu diogelwch gan Wyddel o'r enw Rhain. Yna yn y bennod gyntaf neidiwn i'r flwyddyn 915 – ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach. Erbyn hyn mae Tewdwr yn frenin Brycheiniog, yn dilyn marwolaeth ei dad, ac mae Elwedd yn cael ei chadw'n ddiogel ar y crannog. Daw Syfaddan ap Gruffudd, crefftwr, ac un o brif gymeriadau'r nofel, i'r ynys, a cheir yn y penodau cyntaf y berthynas rhyngddo ef ac Elwedd yn datblygu – perthynas waharddedig, gan mai dim ond crefftwr yw ef, a hithau'n arglwyddes ac yn chwaer i'r brenin.




Ond er gwaethaf pob anhawster sy'n eu hwynebu, a phob ymdrech gan warchodwyr Elwedd i'w cadw ar wahân, mae'r berthynas yn tyfu'n garwriaeth, a'r garwriaeth honno yw canolbwynt y stori. Mae lle'r ferch yng nghymdeithas yr oes yn cael ei amlygu drwy'r nofel, ac mae Elwedd yn cael ei chadw'n gaeth oherwydd ei gwerth fel arf gwleidyddol yn nwylo'i brawd.

Rhaid ei chadw'n ddiogel, a'i defnyddio er lles y deyrnas – fel y dywedir yn y nofel, "dim ond tlws gwerthfawr i'w ddefnyddio pan ddaw'r amser i sicrhau parhad llinach teulu brenhinol Brycheiniog."

Wrth i'r nofel dynnu tua'i therfyn, mae llawer mwy o antur ynddi, gyda digwyddiadau megis llofruddiaethau, arteithio, tân ar yr ynys a chynllwynio yn cael lle amlwg, ac yn sicr y penodau olaf yw rhan fwyaf cyffrous y nofel. Mae amryw wirioneddau hefyd yn cael eu datgelu tua'r diwedd ynglŷn a pherthynas gwahanol unigolion a'i gilydd, ac am y gwahanol gelwyddau gafodd eu dweud.

Ar derfyn y nofel ceir sawl tudalen ar ffurf 'Ôl-nodyn Hanesyddol', ac mae'r wybodaeth a geir ynddynt yn egluro mewn iaith ddealladwy iawn gefndir y nofel. Sonnir am Deyrnas Brycheiniog yn y ddegfed ganrif, hefyd Teyrnasoedd y Saeson, hanesion yn gysylltiedig â Llyn Syfaddan, a pheth o'r chwedloniaeth sy'n deillio o'r cyfnod. Ac mae'r awdur yn llwyddo i wau'r cefndir hwn, gyda'i frwydrau a'i chwedloniaeth i mewn i'r stori yn gelfydd iawn. Mae naws ac awyrgylch y llys ar yr ynys yn cael ei gyfleu'n grefftus yn y penodau cyntaf. Gan fod enwau llawer o'r lleoedd yn y nofel yn dal mewn bodolaeth hyd heddiw, er enghraifft Allt yr Esgair, Bryn Slwch a'r Mynyddoedd Duon, mae'n hawdd i'r darllenydd leoli'r nofel yn ddaearyddol.

Mae ieithwedd y nofel yn ddarllenadwy iawn, gyda chyfuniad da rhwng naratif a deialog. Defnyddir tafodiaith yr ardal yn effeithiol iawn hefyd, gan wneud y deialogi yn gredadwy.

Nofel lwyddiannus yw hon felly, un a fydd yn apelio'n fawr rwy'n siŵr at bobl ifanc yn arbennig, ac un sy'n cymryd ei lle'n gyffyrddus gyda gweddill y gyfres nodedig hon o nofelau hanes.

**John Meurig Edwards**
**Adolygiad buddugol Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch 2024**






Crewyd tipyn o ddiddordeb wrth i gerdd 'fyd natur' John Meurig Edwards, Aberhonddu i Mrs G ennill ym Mhenrhyn-coch. Bu trafodaeth amdani ar raglen Gerallt Pennant fore Sadwrn ac mae Prosiect Gwelich y Glaslyn a'r rhaglen radio yn bwriadu ei rhoi ar eu gwefanau.

John Meurig Edwards- gwahoddiad

## Stori fer – Eisteddfod Penrhyn-coch 2024

"Dewch o 'na, ferched – pwy sy nesa?" Rhowliodd yr athrawes ei llygaid wrth wrando ar fân glebran y disgyblion oedd o'i blaen y bore hwnnw. Roedd ambell un â'i llygaid yn pefrio gan gyffro, un arall yn troi ei phlethen o wallt yn nerfus rhwng ei bysedd, ac un arall yn edrych yn ddi-hid allan drwy ffenest y neuadd. Roedd rhai merched mewn grwpiau bychan, yn siarad yn nerfus o gyflym ac yn edrych o'u cwmpas.

Bu Mary Blythe yn dysgu yn ysgol St Joseph's yn Nhre-biwt ers deg mlynedd. Dim ond pan sylweddolwyd bod prinder dynion, yn sgil y rhyfel diawledig, y cafodd hi fynd yn athrawes. Gweithio yn y llyfrgell fuodd hi cyn hynny – gwaith addas i ferch ddeallus, yn ôl ei hathrawon, ac yn rhywbeth addas iddi ei wneud cyn priodi a chael plant ...

O'i blaen heddiw roedd merched Ysgol Lady Margaret yn aros am ganlyniadau eu haroliadau uwch. Dyma'r merched deunaw oed fyddai'n mynd allan i'r byd mawr – Duw a'u helpo, meddyliodd Mary wrthi'i hun. Roedd hi'n gyfnod anodd, er bod y rhyfel drosodd ers saith mlynedd. Trawyd ei stryd hi yn ardal y dociau'n uffernol gan don ar ôl ton o fomiau, a phrin oedd yr aelwydydd nad oedd mewn hiraeth a galar. Byddai silffoedd siop y gornel yn wag yn aml, a rhai bwydydd yn dal i gael eu dogni. Fyddai hi, Mary, ddim am fod yn sgidiau'r merched yma am bris yn y byd ... ond ni allai ddangos ei theimladau. Ochneidiodd ac ymsythu yn ei sêt.

Edrychodd eto ar y merched, y rhan fwyaf ohonynt yn wyn, ond yn eu plith gwelodd gymysgedd o ieithoedd a lliw croen a gwisgoedd. Roedd wynebau rhai ohonynt yn gyfarwydd; bu Mary yma ddwy flynedd ynghynt yn helpu ei ffrind Siân i ddosbarthu'r canlyniadau i'r un merched. Eisteddai Siân ym mhen arall y neuadd, a rhes o ferched nerfus, brwd, swil a siaradus o'i blaen hithau hefyd. Ceisiodd Mary edrych yn fanylach ... ie, gwyn oedd lliw croen y rhan fwyaf yn y rhes honno hefyd. Prin oedd y merched â lliw croen gwahanol fyddai'n dod i'r chweched dosbarth yn yr ysgol hon hefyd 'te, meddyliodd Mary. Cofiai ambell un – y ferch dal, denau honno tua chefn y rhes oedd â'i meddwl yn bell, a'r bwten fach siaradus tua'r blaen oedd yn cydio'n nerfus o dynn yn ei ffrind.

Gwelodd Mary hi'n gwthio'i ffrind at y ddesg.

"Enw?" gofynnodd Mary. Roedd rhywbeth yn gyfarwydd am hon, meddyliodd. Merch dal, ddu, â sbectols crwn. Cofiai sgwrs sydyn â hi ddwy flynedd yn ôl ... craffodd Mary arni'n fanylach. Symudodd ei golygon i lawr at fol y ferch. Roedd hi'n amlwg yn feichiog. Aeth amynedd Mary hyd yn oed yn fyrrach.

"Bet," atebodd y ferch yn unsillafog.

"Enw llawn," meddai Mary gan edrych arni'n fanwl. Bu'n fore hir a Mary'n ysu am gael mynd allan o'r neuadd drymaidd. Roedd y ferch o'i blaen yn feichiog, yn ddu ... o leia fyddai ddim angen llawer o gyngor ar hon ynglŷn â'i gyrfa.

"Betty. Betty Johnson."

Byseddodd Mary drwy'r papurau o'i blaen. Diolch i'r drefn, doedd 'J' ddim yn rhy bell o dop ei phentwr. Gwelodd y papur a darllenodd y canlyniadau'n sydyn. Cododd ei phen, ailedrych ar y ferch ddu'n amheus, ac edrych eto ar y papur. "Johnson ddwedest ti? Betty?"

"Ie." Mae'n amlwg nad oedd hon am sgwrsio, meddyliodd Mary. Oedd, roedd ei chanlyniadau'n wych; ymhlith y gorau welodd Mary drwy'r bore, ac roedd tri deg a mwy o ferched wedi ciwio o'i blaen eisoes.

"Dyma ti – emmm, llongyfarchiadau. Wyt ti wedi meddwl beth i'w wneud nesa?" Gofynnai Mary yr un cwestiwn i'r merched i gyd, ond teimlai'n lletchwith iawn wrth ei ofyn i hon. Byddai'n cynghori'r rhan fwyaf oedd â chanlyniadau da i fynd i goleg; wedi'r cyfan, roedd ambell un yn dechrau derbyn merched, o'r diwedd. Soniai rhai am fynd i ddysgu teipio, eraill am fynd i nyrsio neu weithio mewn ffatri, neu yn un o siopau swanc St Mary's Street. Bosib gallai Betty weithio mewn swyddfa yn y dociau maes o law, os na fyddai'n gaeth gartre a llond tŷ o blant ...

Edrychodd Betty ar y papur estynnwyd ati a daeth mymryn o wên i'w hwyneb. "Dwi am fod yn athrawes."

"Sorri?" Torrodd llais cadarn Betty ar draws meddyliau Mary. Syllodd Betty arni. Symudodd Mary yn anghyfforddus yn ei sêt. Roedd hi wedi cynghori rhai o'r merched mwy galluog i fynd i'r coleg hyfforddi athrawon, ond merched gwyn oedd bob un o'r rheiny, yn blant i berchnogion ffatri yn y dociau, neu'n ddoctoriaid. Roedd Betty yn ... yn wahanol, heb sôn am fod yn feichiog. Pesychodd Mary'n lletchwith.

"Dwi ddim yn meddwl bod lle i ... i rywun fel ti yn y coleg. Gall fod yn ... yn anodd i ti gael swydd fel athrawes. Dwi ddim yn gwybod am unrhyw athro neu athrawes arall sy'n ..."

"Sy'n beth, Miss?"

Edrychodd Mary'n syth ati. "Betty, mi fydd yn anodd i ti." Gwelodd Betty'n sythu ei chefn. Roedd rhywbeth arbennig am hon, rhyw benderfyniad doedd Mary ddim wedi'i weld yn y merched eraill fu o'i blaen y bore hwnnw. Edrychodd Mary o'i chwmpas, ac annog Betty i blygu'n nes at y ddesg. Gostyngodd ei llais. "Os wyt ti am gael her, cer amdani. Ond dwi am dy rybuddio – mae'n dalcen caled, yn enwedig i ni'r merched ... bydd yn fwy o her i ti na neb, gyda babi ... a chwbl. Ond os mai dyma wyt ti am ei wneud, cer amdani."

Gwenodd Mary arni. Trodd Betty ac aeth allan o'r neuadd a chefnu ar y rhesaid swnllyd. Ochneidiodd Mary. Bechod na fyddai hon yn cael y cyfle roedd hi'n amlwg yn ei haeddu. Ond dyna ni – dyna'r drefn. Aeth yn ôl at ei phapurau.

"Dewch o 'na, ferched – pwy sy nesa?"

* * * *

Gwnaeth Mary baned o goffi i'w hunan ac eistedd wrth y ffenest. Ers iddi ymddeol, dyma oedd ei hoff amser o'r dydd. Roedd eisoes wedi bod allan i nôl ei *South Wales Gazette* o'r siop ar y gornel felly câi ymgolli yn helyntion y dydd. Wedi un cipolwg sydyn ar y dudalen flaen a'i newyddion digalon – rhyfel yn Fietnam, reiots yn America eto fyth – aeth at y tudalennau canol; daliodd un stori bitw ei sylw: 'Mount Stuart Primary School appoints new head'. Er nad oedd hi bellach yn athrawes, roedd gan Mary ddiddordeb byw o hyd yn ysgolion ardal y dociau. Craffodd ar y llun oedd wrth y stori. Roedd rhywbeth yn gyfarwydd am y sbectols crwn a'r olwg benderfynol. Darllenodd yn ei blaen ... gwelodd yr enw ... Betty Campbell. Er bod y cyfenw'n wahanol, a bod dros ddeuddeg mlynedd ers i'r ddwy ddod wyneb yn wyneb â'i gilydd yn neuadd Ysgol Lady Margaret, doedd dim amheuaeth. Gwenodd Mary'n fodlon a chael cegaid o'i phaned.

Ffugenw: Sgriblwr

**Anwen Pierce**, Bow Street

# Ysgol **Penrhyn-coch**



**Dysgu'r mis**

**Diwrnod empathi** bu'n ffocws i'n dysgu yn dilyn gwyliau'r hanner tymor gyda disgyblion yn dysgu am fod yn garedig i eraill, a dangos dealltwriaeth i eraill trwy gyfrwng stori Elfed yn y dysgu sylfaen a dangos sut i ddangos tosturi yng nghyfnod allweddol 2.

**Gŵyl Ffilmiau Trwy'r Lens**

Bu disgyblion blynyddoedd 1-6 wrth eu boddau yn creu ffilm am gyfer Gŵyl Ffilmiau yn y Drwm, Llyfrgell Genedlaethol. Dysgodd disgyblion sgiliau megis trosleisio, golygu, gosod effeithiau sain a cherddoriaeth. Roedd disgyblion wrth eu bodd yn troedio ar y carped coch a chael gwylio eu ffilmiau, a ffilmiau plant eraill yr ardal.




**Bible explorers**

Diolch i Annette Bible explorers a fu'n tywys disgyblion blwyddyn 5 a 6 trwy straeon y testament newydd a'r hen destament. Diolch i Eglwys St Ioan am noddi Beibl yr un i ddisgyblion oedd eisiau un.

**STEM**

Fel rhan o broject STEM bu disgyblion blwyddyn 5 a 6 yn cyflwyno eu cynlluniau ar gyfer Tŷ Gwydr awtomatig i banel o feirniaid o adran roboteg Prifysgol Aberystwyth. Ynghyd a hyn ymwelodd ddisgyblion a'r adran roboteg gan gyfweld a gwyddonwyr a chael eu hysbrydoli ar ddewisiadau gyrfa!





## 'GYDA'N GILYDD GALLWN LWYDDO' – PENRHYN-COCH A PHEN-LLWYN AR Y CYD

**Chwaraeon**

*Trawsgwlad Cylch*

Llongyfarchiadau i bob un gystadlodd yng nghystadleuaeth trawsgwlad cylch ardal Aberystwyth. Braf iawn oedd gweld nifer o ddisgyblion Pen-llwyn a Phenrhyn-coch yn gosod yn yr 20 cyntaf yn eu grwpiau oedran.

*Mabolgampau*

Cafwyd prynhawn bendigedig ar Fehefin 6ed yn Nghwm Rheidol gyda mabolgampau ar y cyd rhwng Ysgol Pen-llwyn ac Ysgol Penrhyn-coch. Diolch i Statkraft am fedru cynnal yno, ac am ddarparu dwr a ffrwyth i ddisgyblion. Diolch hefyd i rieni am gefnogi. Seilo a Melindwr oedd yn fuddugol eleni, gyda Jac ac Hanna yn cipio pencampwyr ysgol Pen-llwyn a George a Chanel yn ennill pencampwyr ysgol Penrhyn-coch – y disgyblion gyda'r nifer fwyaf o bwyntiau ar draws y meysydd.

*Criced yr Urdd*

Braf oedd cynnig y cyfle i ddisgyblion gymryd rhan yn nhwrnament criced yr Urdd i flwyddyn 3 a 4. Cystadlodd y ddwy ysgol ar y cyd. Mwynhaodd disgyblion y profiad mas draw.

*Gŵyl Chwaraeon*

Mwynhaodd disgyblion y ddwy ysgol mas draw yng ngŵyl chwaraeon gan Ceredigion Actif, yn cael y cyfle i brofi nifer o gampau.

**Gŵyl Haf**

Mi fyddwn yn cynnal gŵyl Haf ar gae cefn ysgol Penrhyn-coch ar nos Fawrth Mehefin 25ain am 4pm-5.30pm. Mi fydd eitemau a gystadlodd yn Eisteddfod yr Urdd yn perfformio ynghyd ag eitemau gan ddisgyblion Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Pen-llwyn. Cost tocyn bydd £5 a fydd yn cynnwys diod oer. Bydd bar a lluniaeth ysgafn ar gael.

Rydym yn chwilio am nawdd ar gyfer y noson. Os hoffech gynnwys hysbyseb ar gyfer eich busnes yn rhaglen y noson, neu os ydych yn ymwybodol o fusnes hoffai noddi'r rhaglen, gyrrwch logo'r busnes i prif@penllwyn.ceredigion.sch.uk yn nodi maint yr hysbyseb. Cost tudalen gyfan yn y rhaglen fydd £50. Hanner tudalen £25. Chwarter tudalen £15.

# Ysgol **Pen-llwyn**









**Eisteddfod Yr urdd-Meifod**
Daeth llwyddiant arbennig I Olivia Dowse wrth iddi gamu ar lwyfan y genedlaethol a chipio yr ail wobr am lefaru ‘Dwi eisiau’ o dan adran y dysgwyr! Roeddwn I gyd yn falch iawn ohoni a braf oedd gweld enw’r Ysgol ar lwyfan Cenedlaethol!

Yn ogystal a hynny roedd yna llwyddiant i Gwen Hughes a Iori Price yn y babell Celf a chrefft wrth I Gwen dderbyn yr ail wobr am ei Eryr Serameg a Iori yn drydydd am greu egni bywyd Ysgol mewn bocs!

**Prosiect Stem Dosbarth 2**
Mae Dosbarth 2 wedi bod yn gweithio’n galed efo’i partneriaid o’r Adran Wyddoniaeth a TGCH yn y Brifysgol yn cynllunio ac yn rhaglennu system er mwyn gofalu am y planhigion yn y polytunnel yn yr ysgol yn awtomataidd gan ddefnyddio ‘microbit’. Mae’r disgyblion wedi cael llawer o hwyl yn dysgu sgiliau codio ac yn dysgu llawer o arbenigedd Tally Roberts a Dr Patricia Shaw. Fel rhan o’r gwaith cafwyd cyfle i ymweld â’r adran robotiaid yn y Brifysgol lle cafwyd llawer o hwyl yn edrych ar yr holl brosiectau gan gynnwys y ffefryn – Smot y ci.

**Ymweliad y nyrs**
Diolch i Nyrs Sam am ddod i siarad gyda’r disgyblion lleiaf am hylendid personol. Mi wnaeth y plant ddysgu am bwysigrwydd brwsio dannedd a golchi dwylo. Fw wnaethant fwynhau defnyddio sebon arbennig a golau UV i weld faint mor dda oeddent yn golchi eu dwylo

**Mabolgampau**
Cynhaliwyd mabolgampau’r ysgol eleni ar gaeau ‘Statkraft’ yng Nghwm Rheidol ar ddydd Iau y 6ed o Fehefin. Cafwyd diwrnod hwylus iawn yn yr heulwen braf gyda pob un o’r disgyblion yn cymryd rhan. Llongyfarchiadau i bawb a fuodd yn fuddugol ac i’r llysoedd buddugol eleni – Melindwr a Seilo. Llongyfarchiadau mawr hefyd i Jac Williams a Hanna Williams o flwyddyn 6 â enillodd y tlysau Victor a Victrix Ludorum am yr unigolion efo’r nifer mwyaf o bwyntiau. Da iawn chi!

**Diwrnod Empathi**
Cafon ni wythnos yn llawn o weithgareddau diddorol wrth I ni drafod a dysgu mwy am Empathi. Thema y Dysgu Sylfaen oedd Elfed yrEliffant ac roedd pawb wrth eu boddau! Bu pawb yn gwnio blamced fach Cwtshlyd I Elfed y Tegan ac roedd clustiau Elfed yr eliffant yn boblogaidd iawn wrth iddynt cael ei pasio o gwmpas y dosbarth.

Bu dosbarth 2 yn trafod senarios gwahanol yr ydym yn gwynebu bob dydd gyda ein ffrindiau.

**Cymhwyster Caru Gwenyn**
Llynedd dechreuodd y ddwy Ysgol ar gymhwytser Caru Gwenyn gan Llywodraeth Cymru a thrwy gynllunio gofalus a chreu Palas Pryfed bendigedig rydyn erbyn hyn yn ysgolion sydd yn ‘Caru Gwenyn’ Mae ganddon ni lecynau pwrpasol ac ardaloedd o flodau gwyllt i ddenu y bywyd gwyllt atom.

**Sioe Aberystwyth**
Llongyfarchiadau I bawb am greu campweithiau i Sioe Aberystwyth eleni! Roedd y babell yn llawn o waith bendigedig -cafodd sawl un wobr …. Twm 2il a 3ydd am addurno cacen…Ifan 1af yn y Pitsa.. Hanna 2il 4 cacen myffin a Erin yn cael canmoliaeth uchel wrth greu anifail allan o ffrwythau.

**Sioe Capel Bangor**
Cofiwch ymweld â stondin yr Ysgol ar ddiwrnod y Sioe Ar Awst y 3ydd-bydd ganddom gweithgareddau taflu pêl rygbi a ras rhwystrau yn ogystal a gweithgaredd celf -argraffu!







*Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem*

**Gwefan Cymuned Trefeurig**

**trefeurig.cymru**

- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer

Gwefan Trefeurig Website   Trefeurig8




SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092

Shan ac Alys Jones

GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodyddion /podiatryddion graddedig ac wedi cofrestru efo’r MRCPod

# Ysgol **Craig yr Wylfa**

## YSGOL Y GYMUNED

**Arddangosfa yn Seren y Môr**

Dros yr wythnosau diwethaf mae plant yr ysgol wedi bod yn ofnadwy o brysur yn paratoi gwaith ar gyfer arddangosfa o waith celf BorthFest yng Nghanolfan Seren y Môr. Roedd ein gwaith yn seiliedig ar chwedl Maelgwn Gwynedd a'r stori amdano'n adeiladu cadair ar draeth Ynys-las. Buom yn brysur yn defnyddio clai a phren i greu'r cadeiriau ac roedd cadair pawb i'w gweld yn ystod yr arddangosfa. Roedd y plant hŷn hefyd wedi creu ffotograffau hyfryd gan ddefnyddio delweddau o gadair. Llongyfarchiadau mawr i chi blant roedd eich gwaith yn edrych yn wych!

**Cystadleuaeth Bwgan Brain**

Penderfynwyd defnyddio stori Maelgwn Gwynedd fel sail i greu bwgan brain ar gyfer cystadleuaeth y pentref. Er bod Maelgwn yn frenin, doedd e ddim bob amser yn ddyn caredig a defnyddiwyd y slogan 'Arwr neu Dihiryn' wrth gynllunio. Llongyfarchiadau i bawb a weithiodd mor galed ar greu'r bwgan brain, ac roeddech chi'n haeddu cael y 3ydd wobr yn y categori busnes. Yr Aelod Seneddol Ben Lake oedd wedi cyflwyno'r wobr i ni.

**Nofwyr lleol yn casglu arian**

Mae cael cefnogaeth y gymuned yn bwysig iawn i bob ysgol ac rydym yn ffodus iawn bod trigolion Borth yn teimlo'n gryf dros yr ysgol. Yn ystod mis Mai bu criw o nofwyr lleol yn casglu arian er mwyn i'r disgyblion barhau gyda'u gwersi nofio yn ystod yr haf. Roedd y plant wrth eu boddau pan ddaeth y nofwyr i'r ysgol yn eu gwisgoedd nofio môr a dangos dawns i ni! Diolch yn fawr i bawb am eu haelioni.

**Ysgol y Celfyddydau**

Aeth Dosbarth Miss Finley gyda'n ffrindiau o Ysgol Tal-y-bont i weld cynhyrchiad drama o'r enw 'Y Ribidirew Olaf' gan Gwmni Drama Fran Wen yng Nghanolfan y Celfyddydau. Mae cael y cyfle i fynd i weld cynhyrchiad o ddrama Cymraeg yn bwysig iawn i ni ac roedd y plant wedi hoffi gweld dau o'u harwyr, sef Deian a Loli, yn cyflawni pob math o gampau ar y llwyfan. Diolch yn fawr i Gyngor y Celfyddydau am y nawdd i fynd i weld y cynhyrchiad yma.

## YSGOL GREADIGOL

**Prosiect Teulu**

Cafodd yr ysgol gyfle arbennig i fod yn rhan o Brosiect Teulu sydd i'w weld yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar hyn o bryd. Roedd hi'n hyfryd i gael cydweithio gyda'r artist Elin Crowley unwaith eto wrth iddi arwain y plant mewn gweithdy creu monoprint. Dyma'r tro cyntaf i rai o'r plant i gael cyfle i argraffu ac roedd hi'n bleser i weld eu creadigrwydd.

## YSGOL IACH

**Trawsgwlad**

Roedd hi'n hyfryd gallu cystadlu yn erbyn ysgolion eraill y cylch ar gae Ysgol Gymraeg Aberystwyth i redeg y cwrs traws-gwlad unwaith eto. Gyda dros 50 o blant yn cystadlu ymhob ras, roedd hi'n braf gweld rhai o ddisgyblion yr ysgol yn cyrraedd yn ôl gyda'r goreuon – da iawn chi blant.

**Ysgol y Goedwig yn y Gymuned**

Mae gweithgareddau Ysgol y Goedwig wedi parhau gyda'r gwaith i dreu cadeiriau ar gyfer yr arddangosfa, creu bwgan brain a pharatoi gwely ar gyfer plannu. Diolch yn fawr i Hwb Cymunedol Borth am y planhigion.

**Tylwyth Teg y Borth**

Ymddangosodd jar llawn o ffa hud yn Nosbarth y Dysgu Sylfaen! Sut ddaeth e yno tybed. Ar ôl dyfalu a meddwl am sbel, penderfynwyd mai'r tylwyth teg oedd wedi eu gadael. Dyma'r plant wedyn yn penderfynu creu tai i'r tylwyth teg yn y gobaith y byddant yn dod nol i roi mwy o wybodaeth i ni am Jac a'r Goeden Ffa!

**Clwb ar ôl Ysgol**

Hoffwn i ddiolch o galon i bob aelod o staff sydd wedi bod yn cynnal Clwb ar ôl Ysgol yn ystod y flwyddyn. Mae'r plant wedi cael amrywiaeth o bethau i'w gwneud ac maent yn gwerthfawrogi eich amser gyda nhw.

**Plant 3 oed?**

Cofiwch gysylltu gyda ni os oes gyda chi blentyn sydd yn 3 oed, cysylltwch gyda ni er mwyn i ni allu rhannu ein cynlluniau cyn ysgol gyda chi.









# Ysgol **Rhydypennau**

**Eisteddfod yr Urdd**

Llongyfarchiadau mawr i'r plant a fuodd yn cynrychioli'r ysgol ym Meifod dros yr hanner tymor. Pleser o'r mwyaf oedd gweld Leisi Blwyddyn 5 ar lwyfan y pafiliwn yn perfformio mor arbennig yng nghystadleuaeth Unawd Cerdd Dant Bl.5 a 6 . Llongyfarchiadau mawr hefyd i Mari, Chloe, Seren, Leisi ac Elinor a fuodd yn rhan o berfformiadau llwyddiannus Adran Aberystwyth. Da iawn chi!

**Digwyddiadau a Gweithgareddau**

Da iawn wir i dîm criced Blwyddyn 3 a 4 yr ysgol. Bu'r tîm yn cystadlu yn erbyn ysgolion eraill y Sir mis diwethaf. Perfformiodd y plant yn arwrol gan ennill pob gêm. Gwych!

Da iawn i'r 85 o blant fu'n cystadlu yng nghystadleuaeth Trawsgwlad y cylch ar y 9ed o Fai, llwyddodd pob un i orffen y cwrs mewn amser da. Da iawn i Leisi blwyddyn 5 (1af), Charlotte blwyddyn 4 (2il) a Leonardo blwyddyn 3 (1af) am orffen yn y tri cyntaf. Am her ychwanegol; dau ddiwrnod yn ddiweddarach, mentrodd hanner dwsin o'r plant i herio cwrs Traws gwlad Cenedlaethol yr Urdd ar feysydd chwarae Blaendolau-da iawn i Tirion, Lia, Cadi, Charlotte, Elen a Leonardo am orffen y cwrs a llongyfarchiadau mawr i Tirion am orffen yn $7^{ed}$ ac i Leonardo am orffen yn 2il-campus!

Diolch yn fawr i blant blwyddyn 6 am arwain gwasanaeth Neges Heddwch ac Ewyllys da 2024. Trosglwyddodd y plant hanes a thraddodiad y digwyddiad hwn a rhannu'r neges bwysig eleni i weddill plant yr ysgol.

Diolch o galon i aelodau Pwyllgor Rhieni ac Athrawon yr ysgol am y cymorth i dacluso ardaloedd allanol yr ysgol. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrech yn fawr.

Braf oedd gweld rhai o blant yr ysgol yn adlonni cynulleidfa Ffair Haf neuadd y pentref yn ddiweddar. Mae cysylltiad yr ysgol â'r gymuned yn parhau yn gadarn ac yr ydym yn edrych ymlaen i gydweithio eto yn y dyfodol.



Tîm criced bl 3 a 4.



Leisi ar y llwyfan.



Adloniant Ffair Haf neuadd y pentref.

**Croesawu a Ffarwelio.**

Croeso i Miss Lleucu Haf, athrawes newydd y dosbarth Derbyn. Mae Lleucu'n gyn ddisgybl ac wedi ymuno â ni ers y Pasg. Mae hi wedi setlo'n gyflym iawn ac yr ydym ni oll yn edrych ymlaen i gydweithio gyda hi.

Yn anffodus, bu'n rhaid ffarwelio â dwy aelod gwerthfawr iawn o'n tîm. Mae Miss Natalie Clothier a Miss Heledd Davies yn ein gadael ni ar ddiwedd y tymor. Rydym yn gwerthfawrogi ymroddiad y ddwy ac yn dymuno'n dda iddynt i'r dyfodol.

Mi fyddwn ni'n cynnal ein Garddwest eleni ar y $27^{ain}$ o Fehefin o 5:00yp tan 7:00yh. Croeso mawr i bawb!

**Clwb Cant Mai**

1af – £25 – Gwenelen Hughes
2il – £15 – Mel Blaney
3ydd – £10 – Janwyn Baker



Neges Ewyllys Da dan ofal blwyddyn 6.



Tacluso'r ardal allanol



Croeso Miss Haf!



Ffarwelio Miss Natalie a Miss Heledd.

# Tasg y Tincer


Diolch i'r ddwy fach brysur am eu lluniau hyfryd – Alys England, Bow Street ac Elsi Wynn, Capel Bangor. Gwych! Mae eich lluniau MOR dda, mae'r ddwy ohonoch am gael gwobr y tro hwn. Hwrê!

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd ym Meifod. Da iawn, wir! A gobeithio bod pawb – o bob oedran – wnaeth fynd i'r Eisteddfod wedi cael amser da.


Elsi


Alys

Mae Mehefin, Gorffennaf ac Awst yn fisoedd lle mae digon o bethau i'w gwneud, ac mae'r haf eleni am fod yn un prysur a bywiog! Mae'r Tour de France ar fin cychwyn, gan gychwyn yn yr Eidal, a gorffen yn Nice, yn ne Ffrainc. Hefyd, ar ddiwedd Gorffennaf bydd y Gemau Olympaidd yn cael eu cynnal yn Ffrainc. Ac mae digon yn digwydd yma yng Nghymru – Sesiwn Fawr Dolgellau, Eisteddfod Ryngwladol Llangollen, Ras yr Wyddfa, y Sioe Fawr yn Llanelwedd, Tafwyl yng Nghaerdydd, sawl carnifal a sioe ... heb anghofio'r Eisteddfod Genedlaethol, wrth gwrs, ym Mhontypridd. Whiw! A falle fod rhai ohonoch am gael gwyliau. Dwi'n mwynhau aros mewn pabell! Y peth pwysig yw eich bod yn mwynhau, wrth gwrs, a chael hoe go iawn.



**Enw**

**Cyfeiriad**

**Ysgol**

**Rhif ffôn** **Oed**

Y mis hwn, beth am liwio llun y plant sydd wrth eu boddau yn y pwll padlo. Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r chwe pheth sy'n cuddio yn y llun? Rhaid edrych yn ofalus iawn ... beth am roi cylch o'u cwmpas? Gobeithio cawn ni wythnosau o dywydd pwll padlo a hufen iâ! Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1 Medi. Ta ta tan fis Medi, a phob hwyl i bob un ohonoch chi dros wyliau'r haf!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

*Rhif 470 | Mehefin 2024*